


# Ymateb i ymgynghoriad 'Allbynnau Cyfrifiad 2021: cynigion cynllun cynnwys a chamau datganiadau' – Rhan un

Crynodeb o ymatebion ac argymhellion yn ymwneud â  
chwestiynau yn canolbwyntio ar gam un yr amserlen  
datganiadau

16 Rhagfyr 2021



# Cynnwys

<b>Gwybodaeth gyswllt</b>	<b>2</b>
<b>Cyflwyniad</b>	<b>3</b>
Diolch i bawb a wnaeth ymateb	3
Nodau'r ymgynghoriad	3
Cynnwys yr adroddiad hwn	4
<b>Crynodeb o'r newidiadau i gynigion cam un</b>	<b>5</b>
<b>Ymgysylltu ac ymateb</b>	<b>10</b>
Meini prawf llwyddiant	10
Ymgysylltu â defnyddwyr	10
Crynodeb o'r ymatebion	12
<b>Gwerthuso ymatebion</b>	<b>14</b>
Llunio fersiynau terfynol ein hamserlen datganiadau a manylebau cynhyrchion	14
<b>Ardaloedd daearyddol: casgliadau cam un</b>	<b>16</b>
Yr ardaloedd daearyddol y cyhoeddir ystadegau ar eu cyfer	16
Casglu data o bedair gwlad y DU	19
<b>Cynhyrchion: casgliadau cam un</b>	<b>21</b>
Crynodebau o bynciau	21
Proffiliau ardal	24
<b>Cwestiynau newydd yng Nghyfrifiad 2021: casgliadau cam un</b>	<b>28</b>
Hunaniaeth o ran rhywedd	28
Cyfeiriadedd rhywiol	30
Cyn-filwyr lluoedd arfog y DU	32
Newidynnau ymateb drwy ddirprwy	34
<b>Dosbarthiadau newydd neu ddiwygiedig: casgliadau cam un</b>	<b>36</b>
Grŵp ethnig	36
Oedran	40
Gwlad enedigol	41
Dosbarthiadau eraill	43
<b>Y Camau Nesaf</b>	<b>50</b>
<b>Atodiad A: Sut rydym yn ymateb i'r adrannau gwahanol yn yr ymgynghoriad</b>	<b>52</b>
Ymateb i'r ymgynghoriad: rhan un	52
Ymateb i'r ymgynghoriad: rhan dau	53
<b>Atodiad B: Ymatebwyr i'r ymgynghoriad</b>	<b>55</b>
Ymatebion proffesiynol a sefydliadol	55
Crynodeb o ddiddordeb pynciol ymatebwyr	63

# Gwybodaeth gyswilt

## Ymholiadau

**E-bost:** [census.outputs@ons.gov.uk](mailto:census.outputs@ons.gov.uk)

**Ffôn:** +44 1329 444972

**Ffacs:** +44 1633 652981

**Post:** Census 2021 Outputs Consultation, Office for National Statistics, Segensworth Road, Titchfield, Hampshire, PO15 5RR

## Cyhoeddiadau ynghylch yr ymgynghoriad

Bydd y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) yn rhoi gwybod pan gyhoeddir diweddariadau pellach i'r ymgynghoriad hwn drwy ein bwletinau e-bost, a anfonir drwy wasanaeth GovDelivery.

I gael y wybodaeth ddiweddaraf am allbynnau, cynhyrchion, cynlluniau datganiadau, ymgynghoriadau a digwyddiadau Cyfrifiad 2021, cofrestrwch i gael bwletinau am ddim GovDelivery. Gallwch wneud hyn drwy:

- ymweld â gwefan [GovDelivery](#)
- rhoi eich cyfeiriad e-bost yn y maes priodol
- dewis yr opsiwn i danysgrifio i allbynnau Cyfrifiad 2021
- pwysu'r botwm cyflwyno ar waelod y dudalen

## Sicrhau ansawdd

Mae SYG wedi cynnal yr ymgynghoriad hwn unol ag [egwyddorion ymgynghori'r llywodraeth](#).

E-bostiwch [ons.consultations@ons.gov.uk](mailto:ons.consultations@ons.gov.uk) os na fyddwch yn fodlon ar y ffordd rydym wedi cynnal yr ymgynghoriad hwn.

# Cyflwyniad

## Diolch i bawb a wnaeth ymateb

Hoffem ddiolch i bawb a rannodd eu barn drwy ymateb i'r ymgynghoriad ar [Allbynnau Cyfrifiad 2021: cynigion cynllun cynnwys a chamau datganiadau](#) ar gyfer Cymru a Lloegr. Bydd hyn yn ein helpu i greu cyfres gynhwysfawr o allbynnau a chynhyrchion dadansoddi a fydd yn helpu defnyddwyr i ateb y cwestiynau pwysicaf sy'n wynebu cymdeithas.

## Nodau'r ymgynghoriad

Wrth ddatblygu'r cyfrifiad, rydym wedi ymgysylltu â defnyddwyr er mwyn ein helpu i ddeall eu hanghenion newidiol. O ganlyniad i'r gwaith ymgysylltu parhaus hwn, rydym yn hyderus ein bod wedi casglu data o'r radd flaenaf i ddiwallu anghenion defnyddwyr.

Roedd yr ymgynghoriad hwn yn canolbwyntio ar ein cynigion ar gyfer cynllun cynnwys a chamau datganiadau. Gwnaethom anelu at gyflawni'r canlynol:

- cael adborth ar gynigion yr ymgynghoriad
- meithrin dealltwriaeth o'r newydd o ofynion newidiol defnyddwyr, er enghraifft o ganlyniad i bandemig y coronafeirws neu Brexit
- nodi'r graddau y gall data'r cyfrifiad a gwaith dadansoddi ddiwallu anghenion defnyddwyr

Roedd yr ymgynghoriad hwn ar agor rhwng 13 Gorffennaf a 5 Hydref 2021. I gefnogi'r ymgynghoriad, gwnaethom gyhoeddi [dogfen ymgynghori \(PDF, 1,056KB\)](#) yn amlinellu ein cynigion. Roedd yn cwmpasu pob agwedd ar allbynnau a gwaith dadansoddi Cyfrifiad 2021, ac amrywiaeth o wahanol gynhyrchion allbynnau. Wrth ymateb i'r ymgynghoriad, gwnaethom ofyn i ddefnyddwyr nodi eu gofynion a'u cyfiawnhau.

Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth o'r ymatebion i'r ymgynghoriad i nodi unrhyw anghenion newydd neu anghenion sydd wedi newid o ran data a blaenoriaethu'r gwaith o ddatblygu cynhyrchion allbynnau arfaethedig. Yn seiliedig ar y wybodaeth hon, byddwn yn llunio amserlen derfynol ar gyfer datganiadau allbynnau Cyfrifiad 2021.

Bydd Cyfrifiad 2021 yn creu'r darlun gorau, a mwyaf manwl, posibl o'n cymdeithas. Wrth i amgylchiadau a nodweddion newid dros amser, byddwn yn parhau â'n prif nod i feithrin dealltwriaeth o'r economi, y boblogaeth a chymdeithas ar lefel genedlaethol, lefel ranbarthol a lefel leol. Ynghyd â chanlyniadau'r cyfrifiad, byddwn yn cynnwys ein cynlluniau i ddarparu diweddariadau parhaus ar gyfer yr ystadegau perthnasol dros amser gan ddefnyddio ffynonellau data eraill.

## Cynnwys yr adroddiad hwn

Yr adroddiad hwn yw rhan un o'r ymateb i'r ymgynghoriad.

Yn yr ymateb hwn, rydym yn canolbwyntio ar yr adborth a gawsom gan ddefnyddwyr am gynllun a threfn cynhyrchion Cyfrifiad 2021 a gyhoeddir ar gam cyntaf ein cynlluniau datganiadau. Yn yr ymateb hwn, darparwn y canlynol:

- newidiadau arfaethedig i'n cynigion ar gyfer cam cyntaf ein datganiadau yn seiliedig ar adborth defnyddwyr
- disgrifiadau o'r anghenion a nodwyd gan ddefnyddwyr a arweiniodd at y newidiadau i'n cynigion
- crynodeb o sut y gwnaethom annog defnyddwyr i ymateb a phwy wnaeth ymateb
- gwybodaeth am y ffordd rydym yn gwerthuso'r ymatebion i bob cam

Rydym wedi cynnwys sawl dyfyniad gan ymatebwyr yr ymgynghoriad yn yr adroddiad hwn. Lle darparwyd dyfyniad neu enw sefydliad yn Saesneg yn wreiddiol, rydym wedi trefnu bod hyn yn cael ei gyfieithu i'r Gymraeg yn y ddogfen hon.

Ni ddylai defnyddwyr ddod i gasgliadau ynghylch ein penderfyniadau ar gyfer allbynnau Cyfrifiad 2021 yn seiliedig ar yr adroddiad hwn yn unig. Nid yw angen cyfiawn gan ddefnyddiwr am wybodaeth o reidrwydd yn golygu ei bod yn briodol nac yn ymarferol i gyhoeddi'r wybodaeth y gofynnir amdani fel rhan o allbynnau Cyfrifiad 2021. I'r gwrthwyneb, roedd llawer o anghenion yn hysbys cyn yr ymgynghoriad, felly nid oedd angen mwy o dystiolaeth arnom i'w cynnwys yn ein cynlluniau.

Ddechrau 2022, byddwn yn cyhoeddi rhan dau o'n hymateb a fydd yn mynd i'r afael â'r adborth a gafwyd am gamau yn weddill amserlen datganiadau allbynnau Cyfrifiad 2021.

Yn "Atodiad A: Sut rydym yn ymateb i'r adrannau gwahanol yn yr ymgynghoriad", disgrifiwn strwythur y ddogfen ymgynghori a'r holiadur. Amlinellwn y rhannau o'r holiadur sy'n ymwneud â cham un o'r amserlen datganiadau ac a drafodir yn yr ymateb hwn. Hefyd nodwn y rhannau sy'n ymwneud â champau diweddarach ar yr amserlen datganiadau ac a drafodir yn rhan dau o'n hymateb.

Rydym wrthi'n cymedroli'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad hwn. Er mwyn bod yn dryloyw, byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion sydd wedi'u cymedroli ar [dudalen we'r ymgynghoriad](#) pan gyhoeddwn ran dau o'r ymateb i'r ymgynghoriad.

## **Crynodeb o'r newidiadau i gynigion cam un**

Yn yr adran hon, crynhown y cynigion o'r ymgynghoriad rydym yn eu newid neu'n ystyried eu newid, sy'n ymwneud â cham un o amserlen datganiadau allbynnau Cyfrifiad 2021. Mae'r newidiadau hyn yn seiliedig ar ein casgliadau o'r adborth a roddwyd gan ymatebwyr yn yr ymgynghoriad. Mae'r dystiolaeth sy'n ategu pob cynnig yn cael ei darparu yn adrannau casgliadau cam un y ddogfen hon.

## **Ardaloedd daearyddol**

### **Yr ardaloedd daearyddol y cyhoeddir ystadegau ar eu cyfer**

Byddwn yn darparu mwy o fanylion am holl ardaloedd daearyddol allbynnau Cyfrifiad 2021 ar wefan SYG, cyn cyhoeddi'r canlyniadau cyntaf ddiwedd gwanwyn 2022.

Byddwn yn cynhyrchu holl brif ystadegau Cyfrifiad 2021 yn ôl ffiniau daearyddol o fis Mai 2022. Byddwn hefyd yn ystyried yr angen i gynhyrchu data yn ôl ffiniau seneddol neu ffiniau wardiau diwygiedig. Gwnawn hyn ar ôl i Gomisiwn Ffiniau Cymru a Chomisiwn Ffiniau Lloegr orffen adolygu ffiniau etholiadol yn haf 2023.

Byddwn yn cyhoeddi canllawiau ar agweddau daearyddol i ddefnyddwyr. Bydd y rhain yn cynnwys sut i ddefnyddio ffeiliau chwilio Ardaloedd Cynnyrch er mwyn cyfuno data ar sail ffit orau ar gyfer ffiniau ar wahanol adegau, gan gynnwys Cyfrifiad 2011. Hefyd, byddwn yn cynnal arolwg ar ddefnyddioldeb y canllawiau ar agweddau daearyddol a ddarperir tua blwyddyn ar ôl i ganlyniadau cyntaf Cyfrifiad 2021 gael eu cyhoeddi.

### **Casglu data o bedair gwlad y DU**

Byddwn yn ystyried adborth o'r ymgynghoriad ynghyd â gwybodaeth a gasglwyd yn flaenorol gan yr aelodau o grŵp defnyddwyr data'r cyfrifiad y DU. Bydd hyn yn ein helpu i ddatblygu cynhyrchion allbynnau cyfrifiad y DU, gan gynnwys penderfynu a ddylid creu allbwn cyfunol ar gyfer Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon wrth i ni aros am ganlyniadau'r Alban.

## **Cynhyrchion**

### **Crynodebau o bynciau**

Rydym yn anelu at gyhoeddi canlyniadau cyntaf Cyfrifiad 2021 ddiwedd gwanwyn 2022. Maent yn debygol o gynnwys amcangyfrifon o'r boblogaeth a chartrefi sydd heb eu talgrynnu ar gyfer Cymru a Lloegr, ar lefel awdurdod lleol ac sydd wedi'u croes-dablu yn ôl rhyw ac oedran.

Nesaf, byddwn yn cyhoeddi'r tablau unamryweb ar gyfer crynodebau o bynciau fesul tipyn. Bydd y crynodeb cyntaf yn ymwneud â "Demograffeg a mudo". Ynddo, byddwn

hefyd yn anelu at gynhyrchu'r amcangyfrifon o'r boblogaeth, yn ôl rhyw a grŵp oedran pum mlynedd, ar lefelau daearyddol is.

Byddwn yn newid trefn cyhoeddi'r crynodebau o bynciau o'r hyn a gynigiwyd gennym yn wreiddiol yn yr ymgynghoriad. Nawr byddwn yn cyhoeddi "Cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd" ar ôl "Iechyd, anabledd a gofal di-dâl", "Tai" ac "Y farchnad lafur a theithio i'r gwaith".

O fewn y crynodebau perthnasol o bynciau, anelwn at wneud y canlynol:

- defnyddio dosbarthiadau mwy manwl ar gyfer y tablau ar basbortau a ddelir, anabledd, gofal di-dâl a diwydiant
- sicrhau bod gwybodaeth am gyfanswm nifer y siaradwyr Cymraeg ar gael mewn ardaloedd yng Nghymru
- ychwanegu pedwar tabl ar sail boblogaeth cartrefi; mae'r rhain yn cynnwys iaith y cartref, nifer y bobl anabl yn y cartref, statws cyn-filwr Person Cyswllt y Cartref, a nifer y cyn-filwyr yn y cartref
- cynnwys tablau ar nifer y sefydliadau cymunedol, a'r math o sefydliadau cymunedol, a nifer yr anheddau mewn ardal

Yn y canllaw i ddefnyddwyr data Cyfrifiad 2021, byddwn yn darparu canllawiau ar sut i lunio cyfansymiau ac isgyfansymiau a chrynhof'r data.

Byddwn hefyd yn gwella'r negeseuon ar [dudalennau gwe allbynnau Cyfrifiad 2021](#) gan gynnwys ehangder ein catalog cynhyrchion.

## Proffiliau ardal

Mewn rhai achosion, roedd y dosbarthiad a gynigiwyd ar gyfer y proffiliau ardal yn debyg i'r dosbarthiad mwyaf manwl ar gyfer newidyn, ond roedd ychydig yn llai manwl nag ef. Mewn achosion lle cafwyd gwahaniaeth o un neu ddau gategori yn unig, byddwn yn anelu at gynnwys y dosbarthiad manylach o newidynnau yn y proffiliau ardal. Gwneir hyn lle mae'n ymarferol, heb gael effaith negyddol ar ddefnyddioldeb y cynnyrch. Os nad yw'n ymarferol, byddwn yn sicrhau bod modd llunio'r wybodaeth gan ddefnyddio'r tablau ar gyfer crynodebau o bynciau.

Hefyd, byddwn yn ychwanegu gwybodaeth am brif iaith a'r gallu i siarad Cymraeg at fanyleb proffil ardal.

Byddwn yn llunio gwybodaeth sylfaenol am nifer y preswylwyr a chartrefi ar gyfer pob plwyf a chymuned sy'n llai nag Ardaloedd Cynnyrch (ACau). Ar gyfer y plwyfi a'r cymunedau bach hynny sydd â phoblogaeth o 50 o bobl o leiaf, byddwn yn asesu ymarferoldeb creu proffiliau sy'n cynnwys llai o newidynnau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- oedran
- rhyw

- gweithgarwch economaidd
- y gallu i siarad Cymraeg
- nifer y ceir a faniau sydd ar gael

## Cwestiynau newydd yng Nghyfrifiad 2021

### Hunaniaeth o ran rhywedd

Bwriadwn greu tabl unamryweb gan ddefnyddio'r opsiynau ymateb yn yr holiadur i lefel Awdurdod Lleol o leiaf.

Hefyd bwriadwn ymchwilio i'r dichonoldeb lunio tabl unamryweb manwl sy'n cynnwys categorïau ychwanegol fel y cânt eu cyflwyno. Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft:

- rhywedd cyfnewidiol
- anneuaid
- dyn traws
- menyw draws

Er mwyn diogelu cyfrinachedd, efallai y bydd angen i'r rhain gael eu cyhoeddi i lefelau daearyddol uwch.

### Cyfeiriadedd Rhywiol

Bwriadwn greu tabl unamryweb gan ddefnyddio'r opsiynau ymateb yn yr holiadur i lefel Awdurdod Lleol o leiaf.

Hefyd bwriadwn lunio tabl unamryweb manwl sy'n cynnwys categorïau ychwanegol fel y cânt eu cyflwyno. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol, er enghraifft:

- anrhywiol
- panrywiol
- cwiar

Er mwyn diogelu cyfrinachedd, efallai y bydd angen i'r rhain gael eu cyhoeddi i lefelau daearyddol uwch.

Rydym yn ystyried y ffordd orau o gynhyrchu data ar gyfer ardaloedd daearyddol llai. Gall hyn gynnwys creu dosbarthiad llai. Er enghraifft:

- strêr neu heterorywiol
- hoyw neu lesbiaidd, deurywiol neu gyfeiriadedd rhywiol arall
- heb ei nodi



## Cyn-filwyr lluoedd arfog y DU

Byddwn yn cynnwys y tri newidyn arfaethedig ar gyfer cyn-filwyr lluoedd arfog y DU yng nghrynodeb pwnc cyn-filwyr lluoedd arfog y DU. Byddwn yn llunio'r fanyleb derfynol ar gyfer cyfrif cyn-filwyr lluoedd arfog y DU yn y cartref yn seiliedig ar ganfyddiadau o ddata Cyfrifiad 2021.

## Ymatebion drwy ddirprwy

Er mwyn dechrau mynd i'r afael â'r angen am ddata ar allgáu digidol, byddwn yn ystyried ymarferoldeb llunio newidyn ar lefel cartref ar ymateb drwy ddirprwy. Byddai hyn yn ceisio nodi cartrefi lle gwnaeth rhywun o'r tu allan i'r cartref gwblhau'r ffurflen gyfan ar eu rhan.

Byddwn yn llunio adroddiad sy'n disgrifio'r patrymau mewn ymateb i'r cwestiwn yn gofyn a oedd ymatebwyr yn cwblhau'r ffurflen ar ran nhw eu hunain neu ar ran rhywun arall. Bydd yr adroddiad hwn hefyd yn trafod sut y gall gwybodaeth o'r newidynnau hyn gael ei defnyddio.

## Dosbarthiadau newydd neu ddiwygiedig

### Grŵp ethnig

Byddwn yn ystyried ymarferoldeb cynhyrchu ystadegau ar y poblogaethau Eritreaid, Rwmanaidd a Dyn Sioe. Hwyrach y gwnawn hyn drwy eu cynnwys yn y dosbarthiad grŵp ethnig manwl neu drwy greu tablau poblogaethau bach pwrpasol ar gyfer y grwpiau hyn.

Byddwn hefyd yn ymgysylltu â chynrychiolwyr o'r gymuned Dyn Sioe i ddeall ymhellach sut y dylid cyfeirio at y boblogaeth hon.

Byddwn yn ystyried adborth ar sut i adlewyrchu'r gwahaniaeth rhwng y cwestiwn yng Nghymru a Lloegr wrth lunio'r labeli terfynol ar gyfer dosbarthiadau. Fel arall, byddwn yn parhau i drefnu a labelu'r dosbarthiad grŵp ethnig yn y ffordd arfaethedig.

Fodd bynnag, byddwn yn sicrhau bod adborth ar eiriad opsiynau ymateb yn cael ei ystyried wrth adolygu'r [Safon Ethnigrwydd wedi'i Chysoni](#).

### Oedran

Byddwn yn cyhoeddi data blwyddyn oedran unigol ar gyfer oeddrannau 0 i 99 fel tabl unamryweb ar gam cyntaf yr amserlen datganiadau. Byddwn yn ystyried ymarferoldeb ehangu'r dosbarthiad hwn ac yn rhyddhau peth gwybodaeth fesul blwyddyn oedran unigol ar gyfer y rhai sydd dros 99 oed. Byddwn yn ystyried ymarferoldeb yr anghenion eraill a godir o ran camau diweddarach yr amserlen datganiadau.

## **Gwlad enedigol**

Byddwn yn cadw'r labelu mewn dosbarthiadau gwlad enedigol manwl sy'n grwpio gwledydd yn ôl pryd y gwnaethant ymuno â'r UE. Caiff y broses labelu hon ei diweddarau i adlewyrchu'r categorïau a ddefnyddir yn yr [Adroddiad Chwarterol ar Ystadegau Mudo](#).

Hefyd, byddwn yn ystyried ymarferoldeb rhannu'r categori "Ewrop: Ewrop Arall: Ewrop Arall" yn ddau grŵp yn holl lefelau'r dosbarthiad gwlad enedigol ac yn y dosbarthiad pasbortau a ddelir. Bydd y ddau grŵp hyn yn gwahaniaethu rhwng y gwledydd hynny sy'n aelodau o'r UE a'r rheini nad ydynt mewn rhai o'r dosbarthiadau gwlad enedigol.

## **Dosbarthiadau eraill**

Byddwn yn darparu gwybodaeth am statws priodasol yn ôl yr un grwpiau a oedd ar gael yn nata Cyfrifiad 2011, heblaw am ddau gategori. Byddwn yn rhannu'r grwpiau "Priod" ac "Mewn partneriaeth sifil gofrestrdig" i wahanu'r rheini lle mae'r partner o'r un rhyw a'r rheini lle mae'r partner o'r rhyw arall.

Byddwn yn ystyried a ddylid defnyddio dosbarthiad llai manwl o "math o ail gyfeiriad" mewn mwy o'n hallbynnau. Yn yr asesiad hwn, byddwn yn ystyried yr adborth ar y cynnig i greu newidyn dangosydd "Byw ar wahân gyda'n gilydd".

Yn y dosbarthiad manwl ar gyfer prif iaith, byddwn yn ystyried ymarferoldeb rhannu un neu fwy o ieithoedd allan o'r categori "Iaith Tsieinëeg arall".

Yn olaf, byddwn yn ystyried ymarferoldeb llunio newidyn ar gyfer cartrefi myfyrwyr.

# Ymgysylltu ac ymateb

## Meini prawf llwyddiant

Roedd yn bwysig cael ymatebion i'r ymgynghoriad gan ystod eang o ddefnyddwyr a sefydliadau, gan gynnwys y rhai nad ydynt wedi defnyddio data'r cyfrifiad yn flaenorol. Gwnaed hyn er mwyn sicrhau ein bod yn creu darlun cytbwys o anghenion eang ac amrywiol gwahanol fathau o ddefnyddwyr.

Mae cyrraedd mwy o randdeiliaid yn unol ag argymhellion y Tasglu Data Cynhwysol ac [ymateb Awdurdod Ystadegau'r DU](#) i'w adroddiad. Ynddo, ymrwymwn i greu amgylchedd o ymddiriedaeth a dibynadwyedd. Anelwn at alluogi ac annog pawb i gyfrif a chael eu cyfrif yn nata a thystiolaeth y DU. Cam allweddol yn hyn o beth yw adeiladu ar weithgarwch gwaith maes cymunedol Cyfrifiad 2021 fel ein bod yn cyfathrebu â grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn well.

Anelwyd at gael o leiaf 150 o ymatebion i'r ymgynghoriad, gan gynnwys 100 gan bobl yn ymateb yn eu rhinwedd broffesiynol. Hefyd roeddem am i'r ymatebion gynrychioli amrywiaeth o sectorau. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol, er enghraifft:

- llywodraeth ganolog
- llywodraeth leol
- sefydliadau academaidd ac ymchwil
- sefydliadau elusennol a gwirfoddol

Er mwyn dadansoddi ymatebion yn effeithiol, gwnaethom anelu at gael o leiaf 10 ymateb manwl i bob un o'r 25 o isadrannau o holiadur yr ymgynghoriad. Rhestrir yr isadrannau hyn yn "Atodiad A: Sut rydym yn ymateb i'r adrannau gwahanol yn yr ymgynghoriad".

## Ymgysylltu â defnyddwyr

Er mwyn annog pobl i ymateb, gwnaethom hyrwyddo'r ymgynghoriad drwy ymgyrch amlochrog a oedd yn anelu at gynnwys y rheini a oedd eisoes yn defnyddio'r cyfrifiad a'r rheini a oedd yn newydd.

Yn ystod y misoedd cyn ei lansio, cyfeiriwyd at yr ymgynghoriad mewn cyfarfodydd allanol a chylchlythyrau, ac ar wefan a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol SYG.

Ym mis Mehefin a mis Awst 2021 cynhaliwyd tri gweminar gennym i lansio'r ymgynghoriad cyhoeddus. Ym mhob gweminar gwnaethom gyflwyno'r canlynol i ddefnyddwyr:

- pam roeddem yn cynnal yr ymgynghoriad
- ar beth roeddem yn ymgynghori ym mhob rhan o'r ymgynghoriad
- sut y gallent gymryd rhan

- sut y byddem yn gwerthuso eu hadborth

Gwnaethom bwysleisio mai dim ond ymateb i'r adrannau oedd o ddiddordeb i ddefnyddwyr roedd angen ei wneud, ac nid yr holiadur cyfan. Hefyd neilltuwyd amser ym mhob gweminar i ateb cwestiynau. Cafodd yr atebion i'r cwestiynau mwyaf cyffredin a ofynnwyd yn y tri gweminar eu crynhoi mewn taflen ffeithiau a anfonwyd at y sawl a gymerodd ran.

Hyrwyddwyd y gweminarau hyn:

- ymhlith yr 8,000 a mwy o danysgrifwyr i ddiweddariadau e-bost Cyfrifiad 2021
- yn y cnaud mewn cyfarfodydd i randdeiliaid
- yn gyhoeddus ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol SYG

Roedd y gweminarau yn boblogaidd; cymerodd mwy na 490 ran ynddynt.

Mewn sawl achos, tanysgrifiodd nifer o bobl o'r un sefydliad i ddiweddariadau e-bost neu fynd i gyfarfodydd. Yn aml, byddai'r bobl hyn wedyn yn gweithio gyda'i gilydd i lunio ymateb ar y cyd i'r ymgynghoriad.

Pan ofynnwyd i ni wneud, gwnaethom ailadrodd y gweminarau hyn gyda chynnwys wedi'i deilwra ar gyfer grwpiau defnyddwyr penodol. Er enghraifft, cynhaliwyd sesiwn ar gyfer aelodau grwpiau cymunedol a oedd yn fwy newydd i ddefnyddio data'r cyfrifiad a Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin.

Gwnaethom wahodd defnyddwyr i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad mewn blogiau wedi'u hysgrifennu ar gyfer y [National Statistical](#) ym mis Gorffennaf 2021, ac ar gyfer y [Gymdeithas Ymchwil Gymdeithasol](#) a [Gwasanaeth Data'r DU](#) ym mis Medi 2021. Hefyd gwnaed cyflwyniadau ar agweddau ar yr ymgynghoriad ac anogwyd pobl i gymryd rhan fel rhan o sesiynau wedi'u harwain gan SYG mewn dwy gynhadledd ym mis Medi. Y rhain oedd cynadleddau'r Gymdeithas Ystadegol Frenhinol a Chymdeithas Astudiaethau Poblogaeth Prydain. Canolbwyntiodd y digwyddiadau hyn ar ddefnyddwyr data mewn academia.

Gwnaethom gynnal cyfres o gyfarfodydd ymgynghori pwnc-benodol gyda gwahanol grwpiau defnyddwyr oedd â diddordeb mewn data a gwaith dadansoddi ar gyfer y pwnc hwnnw. Byddwn yn ystyried yr adborth a gafwyd yn y cyfarfodydd hyn ynghyd â'r gwerthusiad o'r ymatebion ffurfiol i'r ymgynghoriad.

Cafodd pawb a ddaeth i'r cyfarfodydd hyn, neu a ddarllenodd y blogiau hyn, eu hannog i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad ffurfiol. Gofynnwyd iddynt nodi eu hanghenion fel defnyddwyr, a chyfiawnhau'r gofynion hyn.

## Crynodeb o'r ymatebion

Cawsom gyfanswm o 312 o ymatebion i'r ymgynghoriad, dros ddwywaith ein targed. O'r rhain, cafodd 240 eu cyflwyno gan bobl yn eu rhinwedd broffesiynol. Roedd y rhain yn cynnwys 211 o ymatebion gan bobl ar ran eu sefydliadau. Nifer y sefydliadau hyn nad ydynt wedi defnyddio data'r cyfrifiad o'r blaen ond sy'n bwriadu defnyddio data Cyfrifiad 2021 yw 15. Cyflwynodd unigolion 72 o ymatebion mewn rhinwedd bersonol.

Cawsom o leiaf 8 ymateb proffesiynol ar gyfer pob sector, gan gynnwys 126 gan lywodraeth leol. Cafodd pob rhanbarth yng Nghymru a Lloegr ei gynrychioli yn yr ymatebion llywodraeth leol. Y sector elusennol a gwirfoddol oedd yr ail sector a gynrychiolwyd fwyaf; cafwyd 46 o ymatebion i gyd.

Roedd y sefydliadau yn cynrychioli ystod eang o grwpiau o'r boblogaeth, er enghraifft y gymdeithas America Ladin, Rwmaniaid, a'r gymdeithas Dyn Sioe. Hefyd cynrychiolwyd sefydliadau o wahanol grefyddau yn dda. Yn eu plith roedd y canlynol:

- Cristnogion
- Hindŵiaid
- Iddewon
- Mwslimiaid
- Rafidasiaid
- Siciaid

Hefyd, cynrychiolir sefydliadau sy'n canolbwyntio ar faterion penodol, er enghraifft heneiddio, digartrefedd ac iechyd meddwl.

Gwnaethom ofyn i ymatebwyr nodi ar ba bynciau y byddent yn ceisio data neu waith dadansoddi pan fyddant ar gael. Mynegodd yr ymatebwyr gryn ddiddordeb yn yr holl bynciau yn y rhestr. Y pynciau a ddewiswyd fwyaf oedd "grŵp ethnig, hunaniaeth genedlaethol, iaith a chrefydd" a "demograffeg, gan gynnwys heneiddio". Nododd tua phum ran o chwech o'r ymatebwyr y byddent yn ceisio data neu waith dadansoddi ar bob un o'r rhain. Er mai "Sefydliadau cymunedol" a "Lluoedd arfog" a ddewiswyd leiaf, nododd traean o'r ymatebwyr y byddent yn ceisio data neu waith dadansoddi ar bob un o'r pynciau hyn.

Yn "Atodiad B: Ymatebwyr i'r ymgynghoriad", rydym wedi cynnwys:

- tabl o'r 240 o ymatebion proffesiynol fesul sector
- rhestr o'r sefydliadau a ymatebodd fesul sector
- tabl o nifer yr ymatebwyr a fynegodd ddiddordeb ym mhob pwnc

Roedd isadrannau'r ymgynghoriad a gafodd y nifer mwyaf o ymatebion yn cynnwys:

- "ardaloedd daearyddol"

- “grŵp ethnig”
- “crynodedbau o bynciau a phroffiliau ardal”

Cafodd pob un o'r isadrannau hyn tua 250 o ymatebion. Ymhlith yr isadrannau a gwblhawyd leiaf roedd:

- “unrhyw sylwadau eraill”
- “effeithiau ar allbynnau eraill”
- “anghenion data a ddaw i'r amlwg”

Cafodd pob un rhwng 125 a 140 o ymatebion. Credwn fod y nifer llai o ymatebion ar gyfer y tair isadran hyn yn dangos bod ymatebwyr wedi llwyddo i rannu eu hanghenion â ni mewn rhannau eraill o'r ymgynghoriad.

## Gwerthuso ymatebion

Drwy gydol holiadur yr ymgynghoriad, gwnaethom bwysleisio bod angen i ddefnyddwyr ddweud wrthym pa wybodaeth sydd ei hangen arnynt o ddata Cyfrifiad 2021 ac, yn bwysicach, pam mae ei hangen arnynt.

Er enghraifft, a fyddai'r wybodaeth yn helpu i ddyrannu adnoddau, cynllunio gwasanaethau, gwerthuso polisïau, neu fonitro amrywiaeth? Beth fyddai'r goblygiadau os na fyddem yn cynhyrchu'r data angenrheidiol? Gallai'r enghreifftiau gynnwys costau uwch, data o ansawdd is i wneud penderfyniadau, neu fethu â bodloni gofynion deddfwriaethol.

Y wybodaeth am y ffordd y defnyddir y data a werthusir. Blaenoriaethir anghenion gwahanol drwy ystyried budd perthynol pob un i gymdeithas.

Rydym yn gwerthuso pob cais ac yn sicrhau bod lefel ofynnol o angen yn cael ei dangos cyn i gynnig ddatblygu. Mae ein penderfyniadau yn perthyn i dri chategori.

1. Os oes digon o angen ymhlith defnyddwyr, a'n bod yn siŵr bod y cais yn ymarferol, byddwn yn ei roi ar waith.
2. Os oes digon o angen ymhlith defnyddwyr, ond nad ydym yn siŵr bod y cais yn ymarferol am resymau gweithredol, byddwn yn ystyried y cais ymhellach.
3. Yn olaf, os nad oes digon o wybodaeth am y ffordd y byddai'r data yn cael eu defnyddio, caiff y cais ei wrthod.

Wrth ystyried cais ymhellach, byddem yn ymchwilio i ffactorau megis datgelu ystadegol, ansawdd a chost. Er enghraifft, efallai y bydd angen i ni ymchwilio ymhellach i'r modd y gallem leihau'r risg o ddatgelu. Neu, efallai y bydd angen i ni ystyried a fyddai newid i gynnyrch y gwneir cais amdano yn effeithio ar gynhyrchion eraill, neu a fyddai'r adnoddau gofynnol i wireddu'r cais yn fwy na'r buddiannau.

Dim ond y cynigion hynny sy'n effeithio ar gam un yr amserlen datganiadau rydym yn eu hystyried yn yr ymateb cychwynnol hwn i'r ymgynghoriad. Byddwn yn ystyried yr holl gynigion eraill yn yr ail adroddiad. Fe'i cyhoeddir cyn y datganiad cyntaf o ddata'r cyfrifiad ddiwedd gwanwyn 2022.

## Llunio fersiynau terfynol ein hamserlen datganiadau a manylebau cynhyrchion

Byddwn yn ystyried y cynigion a wnaed mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, yn ogystal â gweithgareddau ymgysylltu â rhanddeiliaid eraill, a chanfyddiadau'r [Tasglu Data Cynhwysol](#), wrth ystyried anghenion defnyddwyr o ran data Cyfrifiad 2021.

Byddwn yn gwerthuso cryfder yr anghenion hynny yn erbyn ffactorau gweithredol megis ansawdd data, datgelu ystadegol, a chost. Yna, byddwn yn penderfynu pa geisiadau i'w

cynnwys yng nghynllun terfynol allbynnau Cyfrifiad 2021 ar gyfer Cymru a Lloegr.  
Byddwn yn cyhoeddi'r cynllun terfynol hwn fesul cam drwy gydol 2022 ar ein [tudalennau gwe ar gyfer allbynnau Cyfrifiad 2021](#).



# Ardaloedd daearyddol: casgliadau cam un

## Yr ardaloedd daearyddol y cyhoeddir ystadegau ar eu cyfer

### Mathau o ardaloedd daearyddol

Yn yr ymgynghoriad, gwnaethom ofyn i ddefnyddwyr nodi ar ba lefel o ardal ddaearyddol roeddent am gael data ar gyfer pynciau penodol. Roeddem am ddeall i ba raddau roedd angen data ar lefel leol. Gan ein bod eisoes wedi cynnal yr [ymgyngoriad ar bolisi, cynhyrchion a gwasanaethau allbynnau Cyfrifiad 2021](#), ni wnaethom ofyn cwestiynau am yr holl ardaloedd daearyddol gofynnol.

Wrth werthuso'r ymatebion, daeth yn amlwg nad ydym wedi rhoi trosolwg clir i ddefnyddwyr o'r holl ardaloedd daearyddol rydym yn bwriadu eu defnyddio ar gyfer allbynnau Cyfrifiad 2021.

Rydym yn bwriadu parhau i ddefnyddio Ardaloedd Cynnyrch fel prif ardal ddaearyddol allbynnau Cyfrifiad 2021. Hefyd, byddwn yn sicrhau bod yr ardaloedd daearyddol gweinyddol canlynol ar gael drwy grynhoi Ardaloedd Cynnyrch, ar sail ffit orau:

- ardaloedd awdurdod lleol
- ardaloedd neu sectorau cod post
- awdurdodau addysg lleol
- byrddau iechyd lleol yng Nghymru
- etholaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- etholaethau Senedd y DU
- grwpiau comisiynu clinigol, a ddisodlir gan Ranbarthau GIG Lloegr yn fuan
- partneriaethau menter lleol
- plwyfi neu gymunedau Cymreig
- siroedd
- wardiau

Cydnabyddwn fod rhai plwyfi, a chymunedau yng Nghymru, yn llai nag Ardaloedd Cynnyrch. Trafodwn ein cynigion ar gyfer llunio set gryno o wybodaeth ar gyfer yr ardaloedd llai hyn yn yr adran "Proffiliau plwyfi ar gyfer plwyfi bach" yn yr adran "Proffiliau ardal".

Bydd data Parciau Cenedlaethol yn defnyddio ardaloedd daearyddol penodol yn unol â 2011. Hefyd, rydym yn bwriadu cynhyrchu cyfrifiadau syml o'r boblogaeth ar gyfer codau post, fel y gwnaethom yn dilyn Cyfrifiad 2011.

Rydym yn parhau â'r gwaith yn edrych ar allbynnau'r cyfrifiad ar gyfer sgwariau grid.

Rydym yn parhau i ymchwilio i'r modd y gallwn ddarparu ardaloedd daearyddol eraill orau. Y rhain yw'r rhai â ffiniau yn seiliedig ar ddata'r cyfrifiad, megis parthau

gweithleoedd, ardaloedd teithio i'r gwaith, ac ardaloedd adeiledig. Un opsiwn sy'n cael ei ystyried yw rhoi adnoddau i ddefnyddwyr sy'n eu galluogi i greu a lanlwytho eu hardaloedd daearyddol eu hunain.

Mewn ymateb, byddwn yn cyhoeddi rhagor o fanylion am yr holl ardaloedd daearyddol rydym yn bwriadu eu defnyddio ar gyfer allbynnau Cyfrifiad 2021 ar wefan SYG. Byddwn yn cyhoeddi'r wybodaeth hon cyn cyhoeddi'r canlyniadau cyntaf ddiwedd gwanwyn 2022.

## **Dyddiad diffiniad**

Gofynnwyd am farn ynghylch y cynnig i ddarparu allbynnau yn seiliedig ar ffiniau daearyddol fel y'u diffinnir ym mis Mai 2022.

O'r 254 o ymatebwyr a ddywedodd wrthym a oeddent yn cytuno â'r cynnig, roedd 84% yn cytuno.

Roedd rhai ymatebwyr yn anghytuno â'r cynnig am nad oeddent yn siŵr a fyddai'r ardal ddaearyddol roedd ei hangen arnynt yn cael ei chynnwys, yn hytrach nag anghytuno â dyddiad y diffiniad.

Anghytunai ymatebwyr eraill am eu bod am weld ardaloedd daearyddol yn cael eu diffinio gan ddyddiadau ychwanegol yn ogystal â dyddiad arfaethedig mis Mai 2022.

Byddwn yn parhau â'n cynnig i gynhyrchu holl brif ystadegau Cyfrifiad 2021 yn ôl ffiniau daearyddol o fis Mai 2022.

## **Dyddiadau ychwanegol sy'n cael eu hystyried at ddibenion diffiniad**

Nododd ymatebwyr dri angen penodol ychwanegol o ran data.

Yn gyntaf, nodwyd bod angen i ddata fod yn gyson ag ystadegau Cyfrifiad 2011 fel bod modd cymharu ardaloedd lleol dros amser. Hefyd nodwyd bod wardiau yn hynod bwysig yn y maes hwn. Er enghraifft, nododd ymatebydd mewn rhinwedd bersonol:

“Er mwyn rhagamcanu poblogaethau grwpiau ethnig yn seiliedig ar Gyfrifiad 2021, mae angen edrych ar dueddiadau amser yng nghydrannau newid 2011-2021. Bydd angen i'r ystadegau o ran tueddiadau fod yn gyson ag ardaloedd daearyddol arfaethedig 2021.”

Yn ail, nododd ymatebwyr fod angen i ddata fod yn gyson â ffiniau ar ôl i Gomisiwn Ffiniau Lloegr orffen a gweithredu adolygiad 2023 o ffiniau etholiadol. Er enghraifft, o ran etholaethau Seneddol, dywedodd Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin:

“Yn y Llyfrgell, mae gennym y staff i amcangyfrif etholaethau newydd gan ddefnyddio data lefel ardal allbwn presennol. Fodd bynnag, byddai'n feichus

gwneud bob amser y mae AS yn gofyn am ddata ar etholaeth, a byddai'n arwain at ddarparu gwasanaeth llai amserol ac effeithiol.”

Yng Nghymru, mae'r Comisiwn Ffiniau i Gymru yn cynnal adolygiad tebyg. Nododd Llywodraeth Cymru:

“Byddem o blaid gweld data'r cyfrifiad ar gael yn seiliedig ar ardaloedd daearyddol newydd yn deillio o newidiadau sylweddol i ffiniau, er enghraifft o Adolygiad Seneddol 2023 y Comisiwn Ffiniau i Gymru.”

Disgwylir i'r ddau sefydliad gyhoeddi eu hadroddiadau terfynol ar ffiniau etholiadol erbyn haf 2023.

Yn drydydd, cyfeiriodd sawl ymatebydd o awdurdodau lleol at adolygiad parhaus Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol o ffiniau wardiau. Defnyddiwyd hyn gan ymatebwyr, y bydd ffiniau eu hawdurdod lleol wedi newid erbyn mis Mai 2022, i ddangos eu bod yn cytuno â'n cynnig. Defnyddiwyd hyn gan ymatebwyr, y bydd ffiniau eu hawdurdod lleol yn newid ar ôl mis Mai 2022, i ddangos bod angen ffiniau ychwanegol.

Eglurodd Cyngor Medway yr angen hwn drwy nodi:

“Byddai'n well i allbynnau'r cyfrifiad ar gyfer Medway fod yn seiliedig ar y ffiniau ward newydd hyn am y rhesymau canlynol:

1. Maent yn set gyfreithiol-rwymol ddiffiniedig o ffiniau ar gyfer wardiau Medway
2. Byddai defnyddio'r ffiniau newydd yn galluogi'r cyngor i gynllunio gwasanaethau'n well ar gyfer preswylwyr Medway
3. Bydd cynhyrchu data ar gyfer y wardiau newydd yn sicrhau mwy o gywirdeb wrth ddarparu gwasanaethau h.y. osgoi defnyddio adnoddau chwilio i amcangyfrif proffiliau ardal
4. Bydd y wardiau newydd yn eu lle am y gyfran fwyaf o'r cyfnod rhwng Cyfrifiad 2021 a'r cyfrifiad nesaf (gweinyddol neu fel arall)
5. Mae creu data yn seiliedig ar y wardiau newydd yn lleihau'r risg o golli cyfrinachedd drwy ddiwygiadau diweddarach i raniadau data neu chwilio rhwng wardiau
6. Byddai cynhyrchu data ar gyfer y ffiniau hyn yn cefnogi prosesau democrataidd, a byddai cynghorwyr presennol a darpar gynghorwyr yn gallu deall cyfansoddiad wardiau newydd o fewn Medway yn well cyn etholiad 2023”

Mewn ymateb, byddwn yn ystyried ymhellach yr angen i gynhyrchu data yn unol â'r ffiniau seneddol neu'r ffiniau wardiau diwygiedig hyn ddiwedd 2023. Wrth wneud hyn,

byddwn yn ystyried effaith unrhyw newidiadau i ffiniau ar ddata Cyfrifiad 2021 yn erbyn yr adnoddau sydd eu hangen i gynhyrchu data yn ôl ardaloedd daearyddol amgen.

Byddwn yn parhau i lunio ffeiliau chwilio Ardaloedd Cynnyrch bob blwyddyn. Bydd hyn yn galluogi defnyddwyr i grynhoi data Ardaloedd Cynnyrch ar sail ffit orau yn ôl ffiniau ar wahanol adegau, gan gynnwys Cyfrifiad 2011. Mae canllawiau ar gael ar sut i ddefnyddio'r ffeiliau chwilio hyn.

## **Canllawiau ar gyfer creu ardaloedd daearyddol eraill**

Gwnaethom ofyn i ddefnyddwyr am ein cynnig i lunio canllawiau ar sut i greu amcangyfrifon data gorau ar gyfer ardaloedd daearyddol newydd lle nad yw SYG yn cynhyrchu ystadegau.

O'r 245 o ymatebwyr a ddywedodd wrthym a oeddent yn cytuno â'r cynnig, roedd 90% yn cytuno. Nododd rhai o'r ymatebwyr nad oeddent yn cytuno na allent asesu'n gywir a fyddai'r canllawiau yn ddigonol heb weld a defnyddio'r canllawiau.

Mewn ymateb, byddwn yn cynnal arolwg i ddefnyddwyr ryw flwyddyn ar ôl i ganlyniadau cyntaf Cyfrifiad 2021 gael eu cyhoeddi. O fewn hyn, byddwn yn gofyn i ddefnyddwyr rannu eu barn am ddefnyddioldeb y canllawiau a roddir.

## **Casglu data o bedair gwlad y DU**

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) sy'n cynnal y cyfrifiad ac yn cynhyrchu allbynnau ar gyfer Cymru a Lloegr. Caiff cyfrifiadau ar wahân eu cynnal gan Asiantaeth Ystadegau ac Ymchwil Gogledd Iwerddon (NISRA) ar gyfer Gogledd Iwerddon a Cofnodion Cenedlaethol yr Alban (NRS) ar gyfer yr Alban.

Mae SYG yn gyfrifol am ddwyn data ynghyd o bedair gwlad y DU er mwyn cynhyrchu allbynnau'r DU. Fel rhan o hyn, rydym wedi sefydlu gweithgor defnyddwyr data'r cyfrifiad y DU. Y grŵp yw ein prif ddull o sicrhau bod anghenion defnyddwyr data cyfrifiad y DU yn cael eu diwallu lle bo modd.

## **Data'r DU**

Gwnaethom ofyn i ymatebwyr a oeddent yn bwriadu defnyddio data ar lefel y DU neu ddata cymaradwy ar gyfer ardaloedd bach ledled y DU. O'r 227 o ymatebwyr a atebodd, nododd 51% y byddent yn defnyddio data ar lefel y DU neu ddata cymaradwy ar gyfer ardaloedd bach ledled y DU.

Trafododd y rhan fwyaf o'r ymatebion, yn enwedig y rhai gan awdurdodau lleol, ddefnyddio data'r DU fel cymharydd. Er enghraifft, nododd Cyngor Caerdydd:

“Rwy'n cael nifer mawr o geisiadau am ddata yn cwmpasu ystod eang o bynciau/newidynnau ac fel arfer yn cynnwys Cymru a'r DU fel cymharwyr.”

Hefyd trafododd rhai ymatebion gymhariaeth ledled y DU. Er enghraifft, nododd Irish Community Care:

“Rwy'n gweithio'n lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol gyda phoblogaeth nomadaidd. [...] Mae angen i mi wybod bod y data yn cymharu o Ogledd Iwerddon i'r Alban i Gymru neu Lloegr. [...] Hefyd mae angen i mi allu cymharu niferoedd llety neu nodweddion poblogaeth rhwng gwledydd.”

## **Data Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon**

Byddwn yn cynhyrchu data Cymru a Lloegr, a bydd NISRA yn cynhyrchu data Gogledd Iwerddon, cyn gynted â phosibl. Gwnaethom ofyn a oedd angen creu allbwn cyfunol â data Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon ynddo, wrth i ni aros am ganlyniadau'r Alban.

Nododd ymatebwyr fod angen data ar gyfer Cymru, ar gyfer Lloegr, neu ar gyfer Cymru a Lloegr gyda'i gilydd. Nodwyd y byddai data ar gyfer Prydain Fawr neu'r DU yn cael eu defnyddio pan fyddent ar gael. Er enghraifft, nododd Cyngor Brent:

“Wrth ddadansoddi data ar gyfer y fwrdeistref, rydym fel arfer yn meincodi ein sefyllfa ni yn erbyn cymharwyr lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Ar lefel genedlaethol, byddem fel arfer yn defnyddio'r cymharwyr canlynol: Lloegr, Cymru a Lloegr neu Brydain Fawr – yn dibynnu ar y dasg dan sylw, a'r data sydd ar gael. Felly, petai oedi cyn cyhoeddi data'r cyfrifiad ar gyfer y DU (am fod cyfrifiad yr Alban yn digwydd yn ddiweddarach), byddem fwy na thebyg yn defnyddio data cenedlaethol ar gyfer Lloegr, neu Gymru a Lloegr.”

Mewn ymateb, byddwn yn ystyried adborth o'r ymgynghoriad ynghyd â gwybodaeth a gasglwyd yn flaenorol gan yr aelodau o grŵp defnyddwyr data cyfrifiad y DU. Bydd hyn yn ein helpu i ddatblygu cynhyrchion allbynnau cyfrifiad y DU, gan gynnwys penderfynu a ddylid creu allbwn cyfunol â data Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Byddwn yn parhau i ddiweddarau ein [tudalen we ar gyfer data cyfrifiad y DU](#) er mwyn hysbysu defnyddwyr am hynt y gwaith.

## Cynhyrchion: casgliadau cam un

Rydym yn anelu at gyhoeddi canlyniadau cyntaf Cyfrifiad 2021 ddiwedd gwanwyn 2022. Maent yn debygol o gynnwys amcangyfrifon o'r boblogaeth a chartrefi sydd heb eu talgrynnu ar gyfer Cymru a Lloegr, ar lefel awdurdod lleol ac sydd wedi'u croes-dablu yn ôl rhyw ac oedran.

Ar ôl cyhoeddi canlyniadau cyntaf Cyfrifiad 2021, bydd yr hyn sy'n weddill o ran datganiadau cam un yn cynnwys crynodebau o bynciau a phroffiliau ardal.

Mae crynodebau o bynciau yn setiau o dablau unamryweb. Mae hyn yn golygu eu bod ond yn cynnwys data o un amryweb, er enghraifft crefydd neu iechyd cyffredinol. Yr unig eithriad i hyn yw yn y crynodeb pwnc demograffeg a mudo. Bydd hyn yn cynnwys amcangyfrifon o'r boblogaeth, yn ôl rhyw a bandiau oedran pum mlynedd, ar lefelau daearyddol is na'r hyn sydd wedi'i gynnwys yn y canlyniadau cyntaf.

Mae'r crynodebau o bynciau yn debyg o ran cysyniad i Ystadegau Cyflym 2011.

Mae proffiliau ardal yn galluogi defnyddwyr i gymharu ystadegau lleol a chenedlaethol. Maent yn debyg o ran cysyniad i'r rhai sydd ar gael yn [adroddiadau ardal NOMIS](#) ac maent yn cynnwys gwybodaeth am amrywiaeth o bynciau. Bydd y proffiliau ardal ar gael ar gyfer pob ardal ddaearyddol lle mae'r data eisoes wedi cael eu cyhoeddi. Anelwn at ddarparu'r proffiliau ardal hyd at lefel Ardal Gynnyrch.

## Crynodebau o bynciau

### Trefn datganiadau

Bwriadwn gyhoeddi cyfres o ddatganiadau crynodebau o bynciau fesul tipyn rhwng haf a hydref 2022. Gwnaethom ofyn i ddefnyddwyr a oeddent yn cytuno â'r drefn arfaethedig ar gyfer rhyddhau'r crynodebau o bynciau hyn. Y drefn a gynigiwyd oedd:

- 1) demograffeg a mudo
- 2) grŵp ethnig, hunaniaeth genedlaethol, iaith a chrefydd
- 3) cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd
- 4) iechyd, anabledd a gofal di-dâl
- 5) tai
- 6) y farchnad lafur a theithio i'r gwaith
- 7) addysg
- 8) cyn-filwyr y lluoedd arfog

O'r 255 o ymatebwyr a ddywedodd wrthym a oeddent yn cytuno â'r drefn arfaethedig, roedd 77% yn cytuno.

Rhannodd yr ymatebwyr nad oeddent yn cytuno ystod eang o drefnau amgen a oedd yn adlewyrchu eu hanghenion personol ac anghenion eu sefydliadau. Yn yr adborth hwn, roedd cryn gefnogaeth i symud sawl pwnc yn agosach at ddechrau'r amserlen datganiadau.

Yn eu plith roedd y canlynol:

- “Iechyd, anabledd a gofal di-dâl”: at ddibenion yn cynnwys rhagweld anghenion iechyd a gofal yn y dyfodol, a darparu sail dystiolaeth i ddiwygio gofal cymdeithasol.
- “Tai”: at ddiben gwaith cynllunio lleol a deall yr angen am dai fforddiadwy
- “Y farchnad lafur a theithio i'r gwaith”: at ddiben deall yr economi leol yn ystod pandemig y coronafeirws a llywio penderfyniadau seiliedig ar dystiolaeth yn ymwneud ag adfer o'r pandemig

Er mwyn helpu i symud y pynciau hyn i flaen yr amserlen datganiadau, roedd ymatebwyr o'r farn na ddylai crynodeb pwnc ‘Cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd’ gael blaenoriaeth mwyach. Nodwyd y byddai'r crynodeb pwnc ‘Cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd’ yn cael ei ddefnyddio'n bennaf at ddiben monitro amrywiaeth, yn hytrach na chynllunio gwasanaethau, megis iechyd neu dai. Er enghraifft, dywedodd Cyngor Sir Essex:

“Dylai data i lywio gwaith parhaus fod ar gael yn gynt na phynciau newydd yn gyfan gwbl (e.e. cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd) y bydd angen i ni ystyried sut i'w defnyddio orau mewn gwaith cynllunio a datblygu polisïau yn y dyfodol.”

Hefyd gofynnodd rhai ymatebwyr am flaenoriaethu data “addysg”, i'w defnyddio i gynllunio darpariaeth addysg, a blaenoriaethu data “cyn-filwyr y lluoedd arfog” at ddibenion cynllunio gwasanaethau.

Mewn ymateb, gwnaethom argymhell parhau â'r drefn arfaethedig ond gan wneud un newid. Rhyddheir crynodeb pwnc “Cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd” ar ôl crynodeb pwnc “Y farchnad lafur a theithio i'r gwaith”. Mae hyn yn golygu y gellir rhyddhau “Iechyd, anabledd a gofal di-dâl”, “Tai” ac “Y farchnad lafur a theithio i'r gwaith” yn gynt na phryd.

## **Manylebau tablau**

Gwnaethom ddarparu manylebau arfaethedig y tablau ar gyfer datganiadau cam un yn nhab “Topic summaries” y daenlen ‘Draft proposals for outputs data content’. Mae'r daenlen hon ar gael o adran “related links” [tudalen we ymgynghoriad allbynnau Cyfrifiad 2021](#).

Gwnaethom ofyn i ddefnyddwyr a oedd manylebau arfaethedig y tablau yn diwallu eu hanghenion.

O'r 250 o ymatebwyr a nododd a fyddai'r tablau arfaethedig yn diwallu eu hanghenion, dywedodd 64% bod eu hanghenion yn cael eu diwallu'n llawn. Nododd 33% arall fod eu hanghenion yn cael eu diwallu'n rhannol. Dim ond 2% a ddywedodd nad oedd eu hanghenion yn cael eu diwallu.

Bydd rhai o'r anghenion a drafodwyd yn cael eu diwallu gan gynnyrch proffiliau ardal. Trafodir y rhain yn yr adran "Proffiliau ardal".

Nodwyd angen clir gan ddefnyddwyr am wybodaeth bellach am sgiliau Cymraeg, yn benodol gan alluogi nodi'r boblogaeth sy'n siarad Cymraeg. Er enghraifft, o ran y tabl Sgiliau Cymraeg arfaethedig, nododd Llywodraeth Cymru:

"Ar gyfer y crynodeb pwnc, mae'n bwysig bod y tabl hwn yn cynnwys y sgiliau ar wahân (deall Cymraeg llafar, siarad Cymraeg, darllen Cymraeg, ysgrifennu Cymraeg, a dim sgiliau Cymraeg), yn ogystal â'r sgiliau ar y cyd. Y 'prif' ddangosydd yw nifer/canran y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg."

Hefyd gofynnodd ymatebwyr am ddsbarthiadau mwy manwl ar gyfer y tablau ar y canlynol:

- pasbortau a ddelir
- anabledd
- gofal di-dâl
- diwydiant

Amlinellwn anghenion ymatebwyr o ran data ar anabledd a gofal di-dâl yn yr adran "Dosbarthiadau eraill".

Hefyd, nododd ymatebwyr anghenion penodol o ran tablau ychwanegol ar sail boblogaeth cartrefi. Mae'r rhain yn cynnwys:

- iaith y cartref
- nifer y bobl anabl yn y cartref
- statws cyn-filwr person cyswllt y cartref
- nifer y cyn-filwyr yn y cartref

Amlinellwn anghenion ymatebwyr o ran data ar gyn-filwyr yn yr adran "Cyn-filwyr lluoedd arfog y DU".

Yn olaf, nododd ymatebwyr fod angen gwybodaeth am nifer y sefydliadau cymunedol a'r math o sefydliadau cymunedol, a nifer yr anheddau.

Mewn ymateb, rydym yn anelu at gynnwys tablau sy'n bodloni'r gofynion hyn yn y crynodebau perthnasol o bynciau.



## Canllawiau ar gyfer creu cyfansymiau

Nododd rhai ymatebwyr nad ydym yn cynnig cynnwys cyfansymiau nac isgyfansymiau yn y tablau data. Er enghraifft, nododd Cyngor Bwrdeistref Basingstoke a Deane:

“Mae'r ffaith nad oes colofn cyfanswm ar gyfer pob tabl yn gwneud y tablau yn anodd i'w dehongli. Bydd angen i ddefnyddwyr ddeall sut mae categorïau yn perthyn i'w gilydd er mwyn sicrhau nad ydynt yn cyfrifo canrannau a chyfansymiau yn anghywir. Nid yw hyn yn amlwg bob amser, yn enwedig i ddefnyddwyr nad ydynt yn arbenigwyr neu ddefnyddwyr nad ydynt yn siŵr beth fydd y cyfanswm poblogaeth tebygol (ac felly lle maent wedi gwneud camgymeriad).”

Er mwyn helpu i sicrhau na fydd hyn yn digwydd, rydym wedi dylunio'r labeli ar gyfer categorïau i ddangos sut y gall y grwpiau gael eu dosbarthu'n categorïau lefel uwch.

Mewn ymateb, yn y canllaw i ddefnyddwyr data Cyfrifiad 2021, byddwn yn darparu canllawiau ar sut i greu cyfansymiau ac isgyfansymiau a chrynhof'r data.

## Proffiliau ardal

Gwnaethom ddarparu'r newidynnau arfaethedig i'w cynnwys yn y proffiliau ardal yn nhab “Area profiles” y daenlen ‘Draft proposals for outputs data content’. Mae'r daenlen hon ar gael o adran “related links” [tudalen we ymgynghoriad allbynnau Cyfrifiad 2021](#). Nid oedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am y newidynnau cyfrifedig i'w cynnwys yn y cynnyrch hwn. Bydd yr holl ddata sydd yn y proffiliau ardal ar gael i'w lawrlwytho.

Gwnaethom ofyn i ddefnyddwyr a oedd y newidynnau arfaethedig ar gyfer y proffiliau ardal yn diwallu eu hanghenion.

O'r 242 o ymatebwyr a nododd a fyddai'r tablau arfaethedig yn diwallu eu hanghenion, dywedodd 70% bod eu hanghenion yn cael eu diwallu'n llawn. Nododd 28% arall fod eu hanghenion yn cael eu diwallu'n rhannol. Dim ond 2% a ddywedodd nad oedd eu hanghenion yn cael eu diwallu.

Gwnaethom ofyn i ymatebwyr nodi pa ddata ychwanegol roedd eu hangen arnynt ar gyfer y proffiliau ardal os mai dim ond yn rhannol roedd eu hanghenion yn cael eu diwallu, neu os nad oeddent yn cael eu diwallu o gwbl. Roedd llawer o'r ymatebion a gafwyd yn ymwneud yn bennaf â data na fyddant ar gael ar gam cyntaf yr amserlen datganiadau. Roedd y rhain yn cynnwys ceisiadau ar gyfer:

- ardaloedd daearyddol amgen
- croesdablau
- data na chawsant eu casglu yng Nghyfrifiad 2021
- pyramidau poblogaeth rhyw yn ôl band oedran 5 mlynedd

## Anghenion defnyddwyr a ddiwallwyd eisoes

Yn aml gall fod gan newidynnau ddosbarthiadau gwahanol. Mae'r dosbarthiadau hyn yn rhannu'r wybodaeth yn y newidynnau mewn ffyrdd gwahanol ac yn galluogi dadansoddiadau gwahanol. Gofynnodd rhai ymatebwyr am ddosbarthiadau manylach ar gyfer rhai newidynnau, er enghraifft oedran, grŵp ethnig a gradd gymdeithasol fras. Byddwn yn diwallu'r anghenion hyn drwy'r tablau a gyhoeddir yn y crynodebau o bynciau.

Nododd ymatebwyr fod angen newidynnau cyfrifedig o ran crynodebau o bynciau. Yn eu plith roedd y canlynol:

- dwysedd y boblogaeth
- oedran cymedr y boblogaeth breswyl arferol
- maint cartref cymedr
- y nifer cymedr o geir a faniau sydd ar gael fesul cartref

Byddwn yn ymchwilio i ymarferoldeb cynnwys y newidynnau hyn yn y proffiliau ardal ar gyfer ardal ddethol.

Byddwn yn bodloni ceisiadau ymatebwyr eraill drwy'r cynhyrchion delweddau data a ddatblygir gennym. Bydd y cynhyrchion hyn yn fodd i wneud y canlynol:

- cymharu data Cyfrifiad 2021 â data Cyfrifiad 2011
- creu ardaloedd daearyddol pwrpasol
- dangos data ar fapiau rhyngweithiol

Mewn ymateb, byddwn yn gwella'r negeseuon ar [dudalennau gwe allbynnau Cyfrifiad 2021](#) gan gynnwys ehangder ein catalog cynhyrchion.

### Manyleb proffiliau ardal

Gofynnodd ymatebwyr am i sawl mesur arall gael eu hychwanegu at y proffiliau ardal. O'r rhain, cafwyd cyfiawnhad digonol i ychwanegu'r newidynnau canlynol:

- prif iaith
- y gallu i siarad Cymraeg

Hefyd, gofynnodd rhai ymatebwyr am i ni ddefnyddio dosbarthiad mwy manwl ar gyfer newidynnau, a fyddai ond yn cynyddu nifer y categorïau a ddangosir un neu ddau.

Gofynnodd ymatebwyr am i'r proffiliau ardal gynnwys gwybodaeth am gyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd. Ni allwn ddiwallu'r angen hwn oherwydd nid ydym yn bwriadu cyhoeddi'r wybodaeth hon ar lefel Ardal Cynnyrch, sy'n ofynnol ar gyfer y cynnyrch hwn. Disgwylwn i'r data ddatgelu gormod i'w cyhoeddi ar lefel ardaloedd daearyddol bach. Byddwn yn cyhoeddi data ar gyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd yn y crynodebau o bynciau.

Mewn ymateb, byddwn yn anelu at gynnwys y dosbarthiad manylach o newidynnau yn y proffiliau ardal mewn achosion lle dim ond gwahaniaeth o un neu ddau gategori sydd. Gwnawn hyn lle mae'n ymarferol, heb gael effaith negyddol ar ddefnyddioldeb y proffil ardal. Os nad yw'n ymarferol, byddwn yn sicrhau bod modd llunio'r wybodaeth gan ddefnyddio'r tablau ar gyfer crynodebau o bynciau.

Hefyd, byddwn yn ychwanegu gwybodaeth am brif iaith a'r gallu i siarad Cymraeg at fanyleb proffil ardal.

## **Proffiliau plwyfi ar gyfer plwyfi bach**

Yn yr ymgynghoriad, gwnaethom gynnig y byddai'r prif allbynnau ar gyfer plwyfi, neu gymunedau yng Nghymru, yn seiliedig ar Ardaloedd Cynnyrch ar sail ffit orau. Fodd bynnag, cydnabyddwn, mewn rhai achosion, fod plwyfi yn llai o faint nag Ardaloedd Cynnyrch. O ganlyniad, byddai'r plwyfi hyn yn cael eu cyfuno â phlwyfi eraill mewn allbynnau.

Nodwyd ein bod yn ystyried llunio set ychwanegol o broffiliau plwyfi a chymunedau ochr yn ochr â'r prif allbynnau ar gyfer y plwyfi bach hyn. Byddai'r rhain yn cynnwys set gryno o wybodaeth am yr holl blwyfi a chymunedau sydd â phoblogaeth o 50 o bobl o leiaf. Byddai'r rhain yn debyg i'r rhai a luniwyd o Gyfrifiad 2001. Hefyd, rydym yn ystyried darparu gwybodaeth ychwanegol, sylfaenol iawn am nifer y preswylwyr a chartrefi ar gyfer unrhyw blwyf sydd islaw'r trothwy hwnnw.

Gwnaethom ofyn a fyddai'r cynnig hwn o fudd i ddefnyddwyr. O'r 243 o ymatebwyr a nododd a oedd angen proffiliau ychwanegol llai manwl arnynt ar gyfer plwyfi bach, dywedodd 75% na.

Gofynnodd yr ymatebwyr a oedd angen gwybodaeth am blwyfi yn llai nag Ardaloedd Cynnyrch am gyfrifiadau o gyfanswm poblogaethau a chartrefi o leiaf. Gwnaethant hefyd ddiffinio anghenion ychwanegol o ran dosbarthiadau a newidynnau lefel unigol penodol.

Er enghraifft, nododd tîm ymchwil a gwybodaeth Cyngor Gwynedd:

“Hanfodol cael gwybodaeth sylfaenol (o leiaf poblogaeth, oedrannau, iaith Gymraeg) ar gyfer ardaloedd cymuned bychain. Mae nifer o gynlluniau a phrosiectau yn seiliedig ar ardaloedd daearyddol cymunedau (neu gyfuniad ohonynt), sy'n creu'r angen am y data yma ar gyfer pob cymuned yn y sir waeth beth yw eu maint.”

Hefyd, nododd Cyngor Sir Gogledd Swydd Efrog:

“Cyfanswm y preswylwyr arferol, dadansoddiad eang o oedran, nifer y cartrefi a pherchenogaeth ceir o leiaf ar gyfer pob plwyf. Ceir nifer mawr o blwyfi bach iawn yng Ngogledd Swydd Efrog. Heb y wybodaeth hon ni fyddai gennym unrhyw

ddata ystyrllon i gefnogi cynigion am gyllid, megis ar gyfer gwasanaeth bws gwledig, neuadd bentref neu ardal chwarae o fewn plwyf penodol.”

Gall y ceisiadau hyn gael eu crynhoi fel a ganlyn:

- Oedran: grwpiau oedran 0 i 15, 16 i 65, a 65 a throsodd
- Rhyw: benyw a gwryw
- Gweithgarwch economaidd: grwpiau economaidd weithgar, economaidd anweithgar, ac oedrannau 0 i 15
- Siarad Cymraeg: Ydw neu nac ydw (yng Nghymru yn unig)
- Nifer y ceir a faniau sydd ar gael: 0 neu 1 neu fwy

Mewn ymateb, byddwn yn llunio gwybodaeth sylfaenol am nifer y preswylwyr a chartrefi ar gyfer pob plwyf a chymuned sy'n llai nag ACau. At hynny, ar gyfer y plwyfi a chymunedau bach hynny sydd â phoblogaeth o 50 o bobl o leiaf, byddwn yn asesu ymarferoldeb creu proffiliau sy'n cynnwys llai o newidynnau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- oedran
- rhyw
- gweithgarwch economaidd
- y gallu i siarad Cymraeg
- nifer y ceir a faniau sydd ar gael

## Cwestiynau newydd yng Nghyfrifiad 2021: casgliadau cam un

Yn yr adran hon, canolbwyntiwn ar y cynigion ar gyfer dosbarthiadau newidynnau a thablau unamryweb.

Byddwn yn trafod croesdablu â newidynnau eraill a chynlluniau dadansoddi data yn rhan dau o'n hymateb i'r ymgynghoriad.

### Hunaniaeth o ran rhywedd

Gwnaethom ofyn i ddefnyddwyr am yr angen am ddata ar hunaniaeth o ran rhywedd. Roedd modd i ddefnyddwyr raddio eu hanghenion yn erbyn tri ffactor. O blith y 206 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn:

- blaenoriaethodd 50% groesdablu â newidynnau eraill
- blaenoriaethodd 25% ddarparu data ar gyfer ardaloedd daearyddol llai
- blaenoriaethodd 18% ddata sy'n darparu dadansoddiad manylach o hunaniaeth o ran rhywedd
- blaenoriaethodd 11% ddata y gellir eu cymharu â'r Alban a Gogledd Iwerddon

Mewn rhai achosion, blaenoriaethodd ymatebwyr fwy nag un ffactor i'r un graddau, felly nid yw'r canrannau yn dod i 100.

### Y dosbarthiad arfaethedig ar gyfer newidynnau

Gwnaethom ofyn a fyddai ein cynnig i gynhyrchu tablau hunaniaeth o ran rhywedd sy'n gyson â'r opsiynau ymateb blwch ticio o holiadur y cyfrifiad yn diwallu anghenion defnyddwyr. Mae'r dosbarthiad hwn yn cynnwys:

- hunaniaeth o ran rhywedd yr un peth â'r rhyw a gofrestrwyd pan y'i ganwyd
- hunaniaeth o ran rhywedd yn wahanol i'r rhyw a gofrestrwyd pan y'i ganwyd
- heb ei nodi

O blith y 204 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn, nododd 78% y byddai'r dosbarthiad hwn yn diwallu eu hanghenion.

Mewn ymateb, bwriadwn greu tabl unamryweb gan ddefnyddio'r dosbarthiad hwn i lefel Awdurdod Lleol. Hefyd, byddwn yn asesu ymarferoldeb creu tablau i'r dosbarthiad hwn ar lefelau daearyddol is, yn cynnwys wardiau.

### Dosbarthiad mwy manwl

Lle na ddiwallwyd anghenion ymatebwyr, roedd eu pryderon yn ymwneud â'r categori "Hunaniaeth o ran rhywedd yn wahanol i'r rhyw a gofrestrwyd pan y'i ganwyd". Nodwyd anghenion o ran data ar gyfer amrywiaeth o grwpiau penodol o'r boblogaeth. Er

enghraifft, o ran yr angen am ddata ar ddynion traws a menywod traws, nododd Cynghorau Llundain:

“Mae profiad o Raglen Grantiau Llundain yn awgrymu bod menywod traws yn wynebu materion gwahanol i ddynion traws (o ran trais domestig a rhywiol, cael gafael ar loches ac opsiynau o ran tai) felly byddai gwybodaeth fanylach yn hanfodol. Bydd hyn yn hynod ddefnyddiol wrth amcangyfrif y galw am wasanaethau cymorth i ddioddefwyr cam-drin domestig sy'n drawsryweddol. Bydd gan ddynion traws a menywod traws anghenion gwahanol iawn fwy na thebyg a byddant yn gymwys i gael gafael ar ddarpariaeth wahanol (Er enghraifft, dyn traws sydd ar gamau cynnar ei drawsnewidiad neu nad yw allan eto, neu efallai y bydd unigolyn anneauidd a ddynodwyd yn fenyw adeg geni ond yn gallu cael gafael ar loches i fenywod yn unig; mae'n debygol iawn na fyddai menyw draws sydd ar gamau cynnar ei thrawsnewidiad yn gallu gwneud hynny). O ran cael gafael ar wasanaethau iechyd, efallai y bydd angen i ddynion traws a menywod traws gael gafael ar wahanol fathau o ofal iechyd (e.e. gofal gynaeolegol i ddynion) y mae angen iddo fod yn draws gynhwysol ac yn briodol. Mae'r wybodaeth hon yn ddefnyddiol er mwyn helpu bwrdeistrefi i gynllunio eu gwasanaethau.”

Mewn ail enghraifft yn ymwneud yn benodol â'r boblogaeth anneauidd, nododd Hyb Cydraddoldeb Swyddfa'r Cabinet:

“Byddai dadansoddiad manylach o ddata'r cyfrifiad yn ôl hunaniaeth o ran rhywedd yn ein helpu i fireinio polisïau perthnasol y llywodraeth yn well. Er enghraifft, gallai data ar faint a natur y boblogaeth, a newidiadau i'r boblogaeth dros amser, ein helpu i ragweld a rheoli'r galw am Dystysgrifau Cydnabod Rhywedd, sef y broses gyfreithiol y mae pobl yn ei dilyn er mwyn i'w rhywedd caffaeledig gael ei gydnabod yn gyfreithiol yn y DU).

Hefyd gwnaeth nifer mawr o ymatebwyr nodi eu bod yn anneauidd yn Arolwg LGBT Cenedlaethol 2017. Er nad oedd yn sampl cenedlaethol gynrychioliadol, roeddent yn cynnwys 7% o'r holl ymatebwyr (a 52% o'r holl ymatebwyr trawsryweddol) i'r arolwg a wnaeth dargeddu lleiafrifoedd rhywiol a rhyweddol yn benodol. Dynododd y canfyddiadau fod eu profiadau yn wahanol i rai grwpiau eraill. Ar hyn o bryd mae cryn ddiddordeb o ran meysydd polisi (a meysydd eraill) mewn gwahanu data ar y boblogaeth anneauidd (yn cynnwys rhan o'r grŵp “Nac ydy: Hunaniaeth o ran rhywedd yn wahanol i'r rhyw a gofrestrwyd pan y'i ganwyd”) a'u canlyniadau a phrofiadau cysylltiedig.. Yn benodol, mae diddordeb diweddar yn ymwneud â'r achos cyfreithiol ynghylch marcwyr X ar basbortau, sy'n fater hynod bwysig i lawer o bobl anneauidd. Mae hwn yn faes polisi

cymdeithasol cymhleth sy'n dod i'r amlwg, ac yn un lle rydym yn dal i ddatblygu'r sail dystiolaeth.”

Gall y ceisiadau a gyflwynwyd yn yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad gael eu crynhoi fel a ganlyn:

- rhywedd cyfnewidiol
- anneuaid
- dyn traws
- menyw draws

Mewn ymateb, bwriadwn ymchwilio i'r dichonoldeb lunio tabl unamryweb manylach sy'n cynnwys y categorïau ychwanegol hyn. Byddem yn cyhoeddi'r rhain i lefel ddaearyddol uwch, neu'r un lefel ddaearyddol, na'r dosbarthiad llai manwl.

Byddwn yn parhau i asesu data Cyfrifiad 2021 er mwyn deall a ellir cyhoeddi dosbarthiad manylach. Mae'r asesiad hwn yn cynnwys ystyried pa lefel ddaearyddol y gellid ei rhyddhau.

## Cyfeiriadedd rhywiol

Gwnaethom ofyn i ddefnyddwyr am yr angen am ddata ar gyfeiriadedd rhywiol. Roedd modd i ddefnyddwyr raddio eu hanghenion yn erbyn pedwar ffactor. O blith y 206 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn:

- blaenoriaethodd 50% ddata wedi'u croesdablu â newidynnau eraill
- blaenoriaethodd 25% ddata ar gyfer ardaloedd daearyddol llai
- blaenoriaethodd 17% ddata sy'n darparu dadansoddiad manylach o gyfeiriadedd rhywiol
- blaenoriaethodd 11% ddata y gellir eu cymharu â chyfrifiadau'r Alban a Gogledd Iwerddon

Mewn rhai achosion, blaenoriaethodd ymatebwyr fwy nag un ffactor i'r un graddau, felly nid yw'r canrannau yn dod i 100.

## Y dosbarthiad arfaethedig ar gyfer newidynnau

Gwnaethom ofyn a fyddai ein cynnig i gynhyrchu tablau cyfeiriadedd rhywiol sy'n gyson â'r opsiynau ymateb blwch ticio o holiadur y cyfrifiad yn diwallu anghenion defnyddwyr. Y dosbarthiad a gynigiwyd oedd:

- strêr neu heterorywiol
- hoyw neu lesbiaidd
- deurywiol
- cyfeiriadedd rhywiol arall

- heb ei nodi

O blith y 204 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn, nododd 81% y byddai'r dosbarthiad hwn yn diwallu eu hanghenion.

Mewn ymateb, bwriadwn greu tabl unamryweb gan ddefnyddio'r dosbarthiad hwn i lawr i lefel Awdurdod Lleol. Hefyd, byddwn yn asesu ymarferoldeb creu tablau i'r dosbarthiad hwn ar lefelau daearyddol is, yn cynnwys wardiau.

## Dosbarthiad mwy manwl

Lle na ddiwallwyd anghenion ymatebwyr, roedd eu pryderon yn ymwneud â'r categori "Cyfeiriadedd rhywiol arall". Er enghraifft, nododd Hyb Cydraddoldeb Swyddfa'r Cabinet:

"Nid yw'r defnydd o 'arall' fel ffordd o gwmpasu grŵp amrywiol o bobl ag amrywiaeth o gyfeiriadeddau rhywiol lleiafrifol nad ydynt yn lesbiaidd, yn hoyw nac yn ddeurywiol yn fawr o help wrth geisio deall y grŵp hwn neu ddatblygu ymyriadau polisi wedi'u targedu."

Nodwyd anghenion o ran data ar gyfer amrywiaeth o grwpiau penodol o'r boblogaeth. Er enghraifft, o ran yr angen am ddata ar y boblogaeth anrhywiol a phanrywiol, nododd Cynghorau Llundain:

"Mae pobl anrhywiol yn wynebu heriau penodol oherwydd eu rhywioldeb, a all ddigwydd yng nghyd-destun trais domestig a rhyngbersonol [...]. Gall fod angen i ddioddefwyr trais sy'n anrhywiol gael cefnogaeth sy'n ystyriol o'u profiadau penodol. Bydd deall nifer yr unigolion sy'n nodi eu bod yn anrhywiol yn Llundain o fudd i gynorthwyo bwrdeistrefi i ddeall anghenion preswylwyr a chynllunio a blaenoriaethu gwasanaethau.

Mae Deurywiol a Phanrywiol yn gategoriâu â chryn orgyffwrdd o ran profiadau, am fod y ddau yn hunaniaethau a nodweddir gan y ffaith bod unigolion yn hoffi mwy nag un rhywedd ac yn profi rhagfarn a gwahaniaethu oherwydd hynny. Cydnabyddir bod menywod deurywiol yn wynebu risg arbennig o uchel o brofi trais domestig a cham-drin rhywiol [...]. Mae'n debygol bod gan bobl banrywiol a deurywiol anghenion tebyg o ran cymorth. [...]. Felly bydd yn ddefnyddiol cael y wybodaeth hon er mwyn deall anghenion Llundeinwyr sy'n profi trais domestig neu gam-drin rhywiol."

Gall y ceisiadau hyn gael eu crynhoi fel a ganlyn:

- anrhywiol
- panrywiol
- cwiar



Mewn ymateb, bwriadwn lunio tabl unamryweb mwy manwl sy'n cynnwys y categorïau ychwanegol hyn. Byddem yn cyhoeddi'r rhain i lefel ddaearyddol uwch, neu'r un lefel ddaearyddol, na'r dosbarthiad llai manwl.

Byddwn yn parhau i asesu data Cyfrifiad 2021 er mwyn deall a ellir cyhoeddi dosbarthiad manylach. Yn yr asesiad hwn byddwn yn ystyried pa lefel ddaearyddol y gellid ei rhyddhau.

## **Dosbarthiad llai manwl**

Er mwyn gallu cynhyrchu ystadegau ar gyfer ardaloedd daearyddol llai, trafododd rhai ymatebwyr yn benodol greu dosbarthiad llai manwl. Er enghraifft, dywedodd Cyngor Sir Hampshire:

“Mae'n bwysig bod gennym ddata cadarn ar lefelau daearyddol is er mwyn helpu i gynllunio a thargedu adnoddau i'r ardaloedd cywir. Petai gennym ddata ar lefelau uwch byddai'n anodd sicrhau bod adnoddau yn canolbwyntio ar y mannau iawn. [...] Fel bod modd cynyddu faint o ddata a gyhoeddir, efallai y gellid grwpio rhai o'r dosbarthiadau fel bod y data yn bodloni gofynion rheoli datgelu.”

Mae hyn yn unol â'n cynlluniau presennol i ystyried ymarferoldeb cynhyrchu data i lefelau daearyddol is. Drwy grwpio categorïau gellir cyhoeddi data ar gyfer ardaloedd daearyddol llai, neu â chroesdablau mwy cymhleth, wrth hefyd ddiogelu gwybodaeth bersonol ymatebwyr. Er enghraifft, mae'r grwpiau dosbarthu gwlad enedigol symlaf yn grwpio pob ymatebydd i “Wedi eich geni yn y Deyrnas Unedig” ac “Wedi eich geni y tu allan i'r Deyrnas Unedig”.

Rydym yn ystyried a yw hyn yn ymarferol ar gyfer data ar gyfeiriadedd rhywiol. Er enghraifft, gallem greu dosbarthiad â'r categorïau canlynol:

- strêr neu heterorywiol
- hoyw neu lesbiaidd, deurywiol neu gyfeiriadedd rhywiol arall
- heb ei nodi

Byddwn yn parhau i fwrw ati â'r gwaith hwn ac yn anelu at gyhoeddi data yn ôl dosbarthiadau manylach lle bo modd.

## **Cyn-filwyr lluoedd arfog y DU**

Gwnaethom ofyn i ddefnyddwyr am yr angen am ddata ar gyn-filwyr lluoedd arfog y DU. Roedd modd i ddefnyddwyr raddio eu hanghenion am ddata ar gyn-filwyr yn erbyn tri ffactor gwahanol. O blith y 176 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn:

- blaenoriaethodd 55% ddata wedi'u croesdablu â newidynnau eraill
- blaenoriaethodd 32% ddata ar gyfer ardaloedd daearyddol llai

- blaenoriaethodd 7% ddata y gellir eu cymharu â data'r Alban a Gogledd Iwerddon

Mewn rhai achosion, blaenoriaethodd ymatebwyr fwy nag un ffactor i'r un graddau, felly nid yw'r canrannau yn dod i 100.

## Cynigion o ran newidynnau

Gwnaethom ofyn a fyddai'r tri newidyn arfaethedig ar gyfer cyn-filwyr lluoedd arfog y DU yn diwallu anghenion defnyddwyr. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- cyn-filwyr y lluoedd arfog
- statws cyn-filwr y lluoedd arfog person cyswllt y cartref
- nifer cyn-filwyr y lluoedd arfog yn y cartref

O blith y 170 o ymatebwyr a nododd a fyddai'r newidynnau yn diwallu eu hanghenion, dywedodd 91% y byddai cyfuniad o un neu fwy ohonynt yn diwallu eu hanghenion.

Rhododd yr ymatebwyr a ddywedodd na fyddai'r newidynnau hyn yn diwallu eu hanghenion dri rheswm. Mae'r rhain yn cynnwys:

- dim cynlluniau i ddefnyddio data ar gyn-filwyr
- angen i ddata ar gyn-filwyr gael eu croesdablu â newidynnau eraill.
- angen gwybodaeth ychwanegol nas casglwyd yng Nghyfrifiad 2021, er enghraifft hyd gwasanaeth, amser ers gadael neu a yw cyn-filwr o lluoedd arfog gwlad arall.

Mae'r newidyn "statws cyn-filwyr" yn newidyn lefel unigol sy'n grwpio cyn-filwyr yn rhai sydd wedi gwasanaethu yn lluoedd arfog y DU yn flaenorol fel milwr rheolaidd, milwr wrth gefn neu filwr rheolaidd ac wrth gefn. Roedd y newidyn hwn yn diwallu holl anghenion 84% o'r ymatebwyr a roddodd wybodaeth ynghylch a fyddai eu hanghenion yn cael eu diwallu. Defnyddir statws cyn-filwr ar gyfer dau newidyn arall.

Mae "Statws cyn-filwr person cyswllt y cartref" yn newidyn lefel cartref sy'n defnyddio'r un categorïau â statws cyn-filwr. Roedd y newidyn hwn yn diwallu holl anghenion 62% o'r ymatebwyr a roddodd wybodaeth ynghylch a fyddai eu hanghenion yn cael eu diwallu.

Mae "Cyn-filwyr mewn cartref" yn newidyn lefel cartref. Mae'n cyfrif nifer y cyn-filwyr mewn cartref sydd wedi gwasanaethu yn lluoedd arfog y DU yn flaenorol fel milwr rheolaidd neu filwr wrth gefn. Roedd y newidyn hwn yn diwallu holl anghenion 67% o'r ymatebwyr a roddodd wybodaeth ynghylch a fyddai eu hanghenion yn cael eu diwallu.

Mae'r dystiolaeth o'r defnydd o'r newidynnau hyn yn ymwneud yn bennaf â chroesdablau. Er enghraifft, nododd Cyngor Swydd Amwythig:

"Croesewir y newidynnau arfaethedig yn fawr, ond mae angen mwy o wybodaeth am gyfansoddiad y cartref / y math o gartref maent yn byw ynddo, eu rhywedd / oedran, math o annedd, deiliadaeth, ystafelloedd gwely a meddiannaeth. Mae

hyn yn bwysig iawn er mwyn helpu i ddeall eu hanghenion tai (Cynllun Lleol NPPG / strategaeth dai / polisi dyrannu tai), eu hanghenion iechyd a gofal cymdeithasol (Asesiad Anghenion Strategol ar y Cyd) ac i lywio'r broses o roi Cyfamod y Lluoedd Arfog ar waith (a'r asesiad ategol o anghenion).

Hefyd, cyflwynir dyletswydd 'sylw dyledus' newydd y flwyddyn hon, i gyn-filwyr ac aelodau presennol o'r lluoedd arfog a'u teuluoedd. Fe'u hystyrir yn agored i niwed ac fe'u nodir felly un ein categori Cynhwysiant cymdeithasol yn ein Hasesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a Chynhwysiant Cymdeithasol."

Nododd Llywodraeth Cymru hefyd:

"Byddai'r newidyn deilliedig yn seiliedig ar statws cyn-filwr y lluoedd arfog person cswllt y cartref yn ddefnyddiol er mwn gallu edrych ar nodweddion cartref yn ôl statws cyn-filwr, er enghraifft, math o lety, deiliadaeth a gorlenwi. Credir bod rhai o'r materion sy'n wynebu cyn-filwyr yn cael eu hwynebu'n aml gan y cartref cyfan, nid dim ond y cyn-filwr.

Byddai'r ail newidyn deilliedig yn seiliedig ar nifer cyn-filwyr y lluoedd arfog yn y cartref hefyd yn ein galluogi i ddeall anghenion cartrefi o'r fath, ac a yw eu nodweddion yn amrywio yn ôl nifer y cyn-filwyr sy'n bresennol."

Byddwn yn parhau â'n cynlluniau i gynhyrchu'r tri newidyn hyn. Byddwn yn llunio'r fanyleb derfynol ar gyfer cyfrif gyn-filwyr lluoedd arfog y DU yn y cartref yn seiliedig ar ganfyddiadau o ddata Cyfrifiad 2021. Nid ydym yn cynnig cynnwys gwybodaeth am gyn-filwyr lluoedd arfog y DU yn y proffiliau ardal.

Mewn ymateb, byddwn yn diwygio'r fanyleb crynodeb pwnc i gynnwys y tri newidyn ar gyfer cyn-filwyr y lluoedd arfog.

## **Newidynnau ymateb drwy ddirprwy**

Gwnaethom ofyn i ddefnyddwyr a fyddai gwybodaeth ynghylch a oedd rhywun wedi llenwi holiadur Cyfrifiad 2021 ei hun neu ar ran rhywun arall o fudd. Gwnaethom gynnig darparu'r data hyn yn y ffeiliau microddata diogel sydd yn ein hamgylchedd ymchwil diogel.

O blith y 163 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn, dim ond 38% a nododd y byddent yn defnyddio'r wybodaeth hon os oedd ar gael.

Nododd rhai ymatebwyr y byddent yn defnyddio'r wybodaeth i ddeall ansawdd y wybodaeth a roddwyd pan gafodd y ffurflen ei chwblhau ar ran rhywun arall. Nodwyd adborth ynghylch yr effaith bosibl ar gwestiynau mwy sensitif, megis cyfeiriadedd rhywiol.

Trafododd ymatebwyr eraill ddefnyddio'r data hyn i helpu i ddeall allgáu digidol a bwydo hyn i mewn i waith cynllunio gwasanaethau. Er enghraifft, dywedodd Cyngor Sir Caergrawnt:

“Defnyddir y data hyn i feithrin dealltwriaeth newydd o'r cartrefi a all fod wedi'u hallgáu lle gall fod angen darparu mwy o wasanaethau / cymorth nas nodwyd o'r blaen (er enghraifft os na ddefnyddiwyd gwasanaethau'r cyngor yn flaenorol).”

Dywedodd Cyngor Dinas Manceinion:

“Daeth dyfnder allgáu digidol i'r amlwg yn sgil y cyfyngiadau symud oherwydd y pandemig a'r ymateb brys, a byddai hyn yn helpu i fesur y graddau, a byddai unrhyw groesdabiau a all ddarparu mwy o fanylion yn amhrisiadwy.”

Fodd bynnag, nid yw'r newidyn a gynigir ar hyn o bryd yn galluogi dadansoddi allgáu digidol. Y rheswm dros hyn yw, mewn llawer o gartrefi, byddai un unigolyn wedi cwblhau'r ffurflen ar ran y cartref cyfan. Er enghraifft, mewn cartref lle ceir pâr a phlentyn yn ei ardegau, efallai y byddai un o'r rhieni wedi cwblhau'r ffurflen ar ei ran ei hun ac ar ran y rhiant arall a'r plentyn. Ni fyddai hyn yn dweud wrthym a yw'r rhiant arall a'r plentyn yn ei ardegau yn ddigidol lythrennog ai peidio.

Mewn ymateb, er mwyn dechrau mynd i'r afael â'r angen am ddata a fyddai'n fodd i ddadansoddi allgáu digidol, byddwn yn ystyried ymarferoldeb llunio newidyn amgen ar lefel cartref. Byddai'r newidyn hwn yn anelu at nodi cartrefi lle gwnaeth rhywun o'r tu allan i'r cartref gwblhau'r ffurflen gyfan ar ran pob aelod o'r cartref. Er enghraifft, efallai mai aelod o staff y Ganolfan Gyswllt oedd hyn, neu ffrind neu aelod o deulu'r cartref.

Yna gallai'r newidyn hwn gael ei gyfuno â newidynnau eraill, megis p'un a gafodd y ffurflen ei chwblhau ar-lein neu ar bapur, neu brif iaith y preswlydd arferol. Gall hyn roi gwell syniad o allgáu digidol.

Byddwn yn llunio adroddiad sy'n edrych ar y newidyn drwy ddirprwy hwn. Bydd yr adroddiad hwn yn cymharu nodweddion y rhai a gwblhaodd y ffurflen eu hunain â'r rhai y gwnaeth rhywun arall gwblhau'r ffurflen ar eu rhan. Bydd yr adroddiad hwn hefyd yn trafod sut y gall gwybodaeth o'r newidynnau hyn gael ei defnyddio.

Byddwn yn parhau â'n cynnig ar gyfer darparu'r newidyn lefel unigol yn y ffeiliau microddata diogel, a gedwir yn yr amgylchedd ymchwil diogel.

## Dosbarthiadau newydd neu ddiwygiedig: casgliadau cam un

Yn yr adran hon, canolbwyntiwn ar y cynigion ar gyfer dosbarthiadau newidynnau a thablau unamryweb.

Byddwn yn trafod croesdablu â newidynnau eraill a chynlluniau dadansoddi data yn rhan dau o'n hymateb i'r ymgynghoriad.

### Grŵp ethnig

Gwnaethom ofyn i ddefnyddwyr am yr angen am ddata ar grwpiau ethnig. Roedd modd i ddefnyddwyr raddio eu hanghenion yn erbyn pum ffactor. O blith y 230 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn:

- blaenoriaethodd 50% ddata wedi'u croesdablu â newidynnau eraill
- blaenoriaethodd 43% ddata ar gyfer ardaloedd daearyddol llai
- blaenoriaethodd 33% ddata sy'n darparu dadansoddiad manylach o grwpiau ethnig
- blaenoriaethodd 27% ddata y gellir eu cymharu â chyfrifiadau blaenorol yng Nghymru a Lloegr
- blaenoriaethodd 13% ddata y gellir eu cymharu â chyfrifiadau'r Alban a Gogledd Iwerddon

Mewn rhai achosion, blaenoriaethodd ymatebwyr fwy nag un ffactor i'r un graddau, felly nid yw'r canrannau yn dod i 100.

Gwnaethom ofyn am yr ardaloedd daearyddol y byddai defnyddwyr yn eu defnyddio fwyaf, o ran data ar grwpiau ethnig. O blith y 237 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn:

- byddai 62% yn defnyddio'r lefel genedlaethol
- byddai 53% yn defnyddio'r lefel ranbarthol
- byddai 80% yn defnyddio'r lefel Awdurdod Lleol
- byddai 35% yn defnyddio'r lefel Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Ganol
- byddai 56% yn defnyddio'r lefel Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is
- byddai 39% yn defnyddio lefel Ardal Gynnyrch

Gwnaethom ofyn pa un o'r dosbarthiadau grŵp ethnig fyddai fwyaf defnyddiol i ddefnyddwyr. O blith y 236 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn:

- byddai 49% yn defnyddio'r dosbarthiad 5 categori, gan adlewyrchu'r grwpiau lefel uchel ar yr holiadur

- byddai 67% yn defnyddio'r dosbarthiad yn adlewyrchu'r 19 o opsiynau ymateb ar yr holiadur
- byddai 36% yn defnyddio holl fanylion yr ymatebion ysgrifenedig os oeddent ar gael

Gwnaethom ofyn i ddefnyddwyr a fyddai'r manylion ychwanegol a gesglid drwy opsiwn ymateb “Roma”, ac opsiwn ysgrifenedig ar gyfer yr opsiwn ymateb “Affricanaidd” yn ddefnyddiol.

O blith y 201 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn, nododd 81% y byddent yn defnyddio'r manylion ychwanegol am grwpiau ethnig.

## **Dosbarthiad manwl**

Wrth ddatblygu'r dosbarthiad grŵp ethnig manwl, ein methodoleg gyffredinol yw pennu angen y defnyddiwr. Rydym wedi tybio bod angen yr holl gategorïau a gafodd eu cynnwys yng Nghyfrifiad 2011.

Hefyd, rydym wedi ychwanegu cofnodion dosbarthu arfaethedig ar gyfer pob grŵp poblogaeth lle nodwyd angen defnyddiwr wrth ddatblygu holiadur Cyfrifiad 2021. Ymhlith y dosbarthiadau newydd rydym wedi ymrwymo iddynt yn flaenorol ac wedi'u cynnwys yn y dosbarthiad grŵp ethnig manwl drafft mae Iddewig, Siciaidd a Chernywaidd.

Pan fydd data Cyfrifiad 2021 ar gael, byddwn yn asesu'r cofnodion dosbarthu arfaethedig er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni gofynion rheoli datgelu. Byddwn hefyd yn edrych i weld a oes unrhyw gategorïau newydd a gafodd nifer mawr o ymatebion yn y cyfrifiad. Os oes, byddwn yn asesu a oes angen defnyddiwr am ddata ar y boblogaeth a nodwyd.

Ni wnaethom ddarparu cynnig ar gyfer y dosbarthiad grŵp ethnig manwl yn y ddogfennaeth ymgynghori. Gwnaeth hyn ein galluogi i weld yn gliriach lle roedd angen cryf. Rhannodd ymatebwyr eu gofynion wrth drafod eu hanghenion am ddogfennaethiadau a dadansoddiadau.

Roedd y rhan fwyaf o'r wybodaeth y gofynnodd ymatebwyr amdani yn cyfeirio at grwpiau a gafodd eu cynnwys yn nosbarthiad grŵp ethnig 2011 ac rydym yn bwriadu eu cynnwys eto yn 2021. Gofynnodd ymatebwyr am ddata neu waith dadansoddi ar dri grŵp ethnig ychwanegol nad oeddem wedi eu cynnwys yn y dosbarthiad arfaethedig. Mae'r tri grŵp hyn yn cynnwys:

1. Eritreidd: gofynnwyd amdano er mwyn deall anghenion ceiswyr lloches o Eritrea
2. Rwmanaidd: i ddeall a oes gan y grŵp hwn sy'n tyfu'n gyflym anghenion gwahanol i rai poblogaethau eraill

3. “Dyn Sioe / Menyw Sioe” neu “Dyn Sioe”: gofynnwyd amdano er mwyn gallu gwneud gwaith monitro cydraddoldeb a datblygu polisïau sy'n effeithio ar boblogaethau â ffordd o fyw nomadaidd, er enghraifft o ran addysg a thai

Mewn ymateb, byddwn yn ystyried ymarferoldeb cynhyrchu ystadegau ar y poblogaethau Eritreidd, Rwmanaidd a Dyn Sioe. Ystyriwn wneud hyn drwy eu cynnwys yn y dosbarthiad grŵp ethnig manwl neu drwy greu tablau poblogaethau bach pwrpasol ar gyfer y grwpiau hyn.

### **Trefnu'r categorïau o fewn y dosbarthiadau**

Gwnaethom gynnig trefnu'r dosbarthiad 5 categori yn nhrefn yr wyddor, heblaw am roi “Arall” ar y diwedd. Ar gyfer y dosbarthiad 19 categori, caiff pob categori ei neilltuo i un o'r dosbarthiadau 5 categori ac yna caiff label isgategori. Enghraifft o hyn yw “Gwyn: Gwyddelig”. Gwnaethom gynnig trefnu'r categorïau yn nhrefn yr wyddor gyntaf, gan roi “Arall” ar y diwedd. Yna, caiff labeli'r isgategoriâu eu rhestru yn nhrefn yr wyddor gyda phob un o'r priod gategoriâu “Arall” ar y diwedd. Byddai'r dosbarthiad manwl yn dilyn yr un strwythur.

O blith y 230 o ymatebwyr a rannodd eu barn am drefn arfaethedig y dosbarthiad, dywedodd 70% y byddai'n diwallu eu hanghenion. Nododd ymatebwyr y byddai rhoi'r dosbarthiad yn nhrefn yr wyddor yn ei gwneud hi'n haws i sganio am grwpiau penodol. Ateggodd Hyb Cydraddoldeb Swyddfa'r Cabinet ei ateb drwy nodi:

“Cyflwynwn y data yn nhrefn yr wyddor yn ôl 5 grŵp eang, (ac eithrio 'Unrhyw grŵp ethnig arall' sy'n dod yn olaf) yna yn nhrefn yr wyddor o fewn y grwpiau hynny os yw'r manylion ar gael (mae Gwyn Arall, Du Arall ac ati yn olaf yn y grwpiau hynny). Dangosodd ein hymchwil defnyddwyr mai dyma oedd fwyaf derbyniol.”

Nododd rhai ymatebwyr pam nad oedd y cynnig yn diwallu eu hanghenion. Roedd eu rhesymau yn ymwneud â bod yn gyfarwydd â threfn dosbarthiad grŵp ethnig Cyfrifiad 2011 a'r angen i gymharu data dros amser. Awgrymwyd tair trefn amgen, yn cynnwys:

- fel Cyfrifiad 2011
- fel holiadur Cyfrifiad 2021
- yn ôl maint y boblogaeth

Byddwn yn parhau i drefnu newidynnau grŵp ethnig yn nhrefn yr wyddor. Darperir data mewn fformat sy'n galluogi defnyddwyr i aildrefnu'r wybodaeth yn unol â'u hanghenion dadansoddi.

## Iaith tablau dosbarthu

Rhannodd cyfanswm o 212 o ymatebwyr eu barn ynghylch a yw geiriad presennol y dosbarthiadau grŵp ethnig yn briodol. O'r rhain, nododd 81% ei fod yn gwbl briodol a nododd 19% fod rhywfaint o'r geiriad yn amhriodol.

Mewn sawl achos, gofynnodd ymatebwyr am i categorïau a gaiff eu grwpio gyda'i gilydd mewn un blwch ticio ar holiadur y cyfrifiad gael eu gwahanu. Yn achos "Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig" cwestiynwyd derbynioddeb geiriad yr opsiwn ymateb hefyd. Caiff yr adborth hwn ei ystyried wrth adolygu'r [Safon Ethnigrwydd wedi'i Chysoni](#).

Awgrymodd nifer bach o ddefnyddwyr y dylid symleiddio'r dosbarthiadau, er enghraifft ailfformatio'r categori "Asiaidd, Asiaidd Cymreig, neu Asiaidd Prydeinig: Bangladeshaid" i "Asiaidd: Bangladeshaid". Rydym yn bwriadu defnyddio'r holl dermau, gan eu bod yn dynodi'r amrywiaeth o hunaniaethau yn y grŵp.

Gan fod y categorïau lefel uchel ond yn cynnwys "Asiaidd Cymreig" a "Du Cymreig" yng Nghymru, cwestiynodd sawl ymatebydd ei gynnwys yn enwau'r dosbarthiad.

Awgrymodd Hyb Cydraddoldeb Swyddfa'r Cabinet y dylai'r ymadrodd gael ei gynnwys, ond ar ôl "Asiaidd Prydeinig" a "Du Prydeinig" yn y drefn honno. Awgrymodd ymatebydd arall gynnwys y term mewn cromfachau er mwyn dynodi nad oedd yr ymadrodd hwn yn cael ei ddefnyddio'n gyffredinol yn y cwestiwn.

Byddwn yn ystyried yr adborth hwn wrth benderfynu ar y ffordd orau o arddangos y labeli hyn, er mwyn adlewyrchu'r gwahaniaeth rhwng y cwestiwn yng Nghymru a Lloegr.

Yn olaf, nododd sawl ymatebydd fod angen gwybodaeth am y grŵp "Dyn Sioe". Yn eu hadborth, nodwyd pwysigrwydd defnyddio'r term "Dyn Sioe" yn hytrach na "Dyn Sioe / Menyw Sioe" neu "Pobl Sioe". Er enghraifft, nododd Future4Fairgrounds:

"mae'r term Pobl Sioe yn amhriodol ac yn gamarweiniol am nad pobl sioe yw ein cymuned (nid ydym yn y theatr) DYNION SIOE ydynt, nid yw'r term hwn yn benodol o ran rhywedd nac oedran, ffurf luosog DYN SIOE ydyw. Mae ein cymuned yn uniaethu â'r derminoleg hon p'un a ydynt yn ddynion, yn fenywod neu'n blant. O'r diwedd rydym wedi cael ein cydnabod am ein treftadaeth ddiwylliannol a gallwn nawr nodi ein hunaniaeth gan ddefnyddio ein cefndir ond drwy ddefnyddio'r gair Pobl Sioe mae'n creu mwy o ddryswch"

Mewn ymateb, byddwn yn ymgysylltu â chynrychiolwyr o'r gymuned hon i ddeall ymhellach sut y dylid cyfeirio at y boblogaeth hon.



## Oedran

Gwnaethom ofyn i ddefnyddwyr am yr angen am ddata ar oedran. Roedd modd i ddefnyddwyr raddio eu hanghenion am ddata ar oedran yn erbyn pum ffactor gwahanol. O blith y 208 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn:

- blaenoriaethodd 52% ddata wedi'u croesdablu â newidynnau eraill
- blaenoriaethodd 49% ddata ar gyfer ardaloedd daearyddol llai
- blaenoriaethodd 37% ddata sy'n darparu dadansoddiad manylach o oedran
- blaenoriaethodd 29% ddata y gellir eu cymharu â chyfrifiadau blaenorol yng Nghymru a Lloegr
- blaenoriaethodd 13% ddata y gellir eu cymharu â chyfrifiadau'r Alban a Gogledd Iwerddon

Mewn rhai achosion, blaenoriaethodd ymatebwyr fwy nag un ffactor i'r un graddau, felly nid yw'r canrannau yn dod i 100.

Cafodd y graddau hyn eu cefnogi'n rhannol gan ddyfyniadau ysgrifenedig. Er enghraifft, nododd Cyngor Bolton:

“Mae data ar lefel ardal fach yn ddefnyddiol er mwyn i ni gynllunio gydag ardaloedd lle ceir nifer cynyddol o bobl iau/hŷn a chynllunio gwasanaethau yn briodol. Mae edrych ar groesdablu yn ôl oedran yn ffordd ddefnyddiol o ystyried sut mae gwahanol ffactorau yn rhyngweithio mewn poblogaethau agored i niwed.”

Fodd bynnag, trafododd ymatebwyr yr angen am ddata ar gyfer ardaloedd daearyddol llai, yn fwy na data wedi'u croesdablu â newidynnau eraill.

## Y dosbarthiad arfaethedig ar gyfer newidynnau

Gwnaethom ddarparu'r dosbarthiadau arfaethedig ar gyfer oedran yn nhab “Resident age” y daenlen ‘Draft proposals for outputs data content’. Mae'r daenlen hon ar gael o adran “related links” [tudalen we ymgynghoriad allbynnau Cyfrifiad 2021](#). Gwnaethom gynnig dros 50 o ddosbarthiadau gwahanol.

Gwnaethom ofyn a oedd y dosbarthiadau yn diwallu anghenion defnyddwyr. O blith y 204 o ymatebwyr a ddywedodd wrthym a oedd y cynnig yn diwallu eu hanghenion, nododd 63% ei fod yn diwallu eu hanghenion yn llawn. Nododd 24% arall fod eu hanghenion wedi'u diwallu'n rhannol, a nododd 14% nad oeddent wedi eu diwallu.

Dim ond un cais a wnaed sy'n effeithio ar y tablau a gynigiwyd ar gyfer oedran yn ystod cam cyntaf yr amserlen datganiadau. Y cais hwn oedd data blwyddyn oedran unigol ar y rhai sydd dros 99 oed. Ar hyn o bryd, darperir data blwyddyn oedran unigol ar gyfer y rhai sy'n 99 oed ac iau. Yna caiff y data eu grwpio yn y categori ar gyfer y rhai sy'n 100 oed a throsodd. Er enghraifft, nododd yr Adran Gwaith a Phensiynau:

“At ddibenion modelu microefelychu, ein newidynnau pwysicaf yw rhyw ac oedran. Ar gyfer oedran, mae dangos blwyddyn oedran unigol hyd at yr uchafswm sy'n ymarferol mewn ystyriaethau sampl bach yn bwysig iawn i ni, yn enwedig gyda'r boblogaeth sy'n heneiddio a'r nifer cynyddol o bobl sy'n 100+ oed. Ystyriwch gyhoeddi canlyniadau gan ddefnyddio blwyddyn oedran unigol lle bo modd, ac i'r uchafswm oedran lle y gallwch.”

Hefyd, gwnaeth ymatebwyr sawl cais arall i ddiwygio'r dosbarthiadau a chafodd yr angen ymhlith defnyddwyr ei gyfiawnhau. Er enghraifft, mae'r ceisiadau hyn yn cynnwys dosbarthiadau sydd:

- yn adlewyrchu'r dyddiadau y mae plant yn symud rhwng lefelau addysgol, er enghraifft ysgol gynradd, ac ysgol uwchradd
- yn cynnwys toriad ar gyfer 17 oed ac iau, yn lle 18 oed a throsodd, er mwyn adlewyrchu'r gwasanaethau amrywiol sydd ond ar gael i'r boblogaeth sy'n oedolion a'r gofyniad i fod mewn rhyw fath o addysg hyd at 18 oed
- darparu gwybodaeth blwyddyn oedran unigol ar gyfer y rhai rhwng 18 a 24 oed er mwyn deall poblogaethau myfyrwyr yn well
- adlewyrchu'r newid ym mhensiwn y wladwriaeth i 66 oed, gan fod yr holl dablau marchnad lafur presennol yn darparu dadansoddiadau 65 oed neu drosodd

Nid ydym yn disgwyl defnyddio unrhyw rai o'r dosbarthiadau newydd arfaethedig hyn yng ngham un o'r amserlen datganiadau, gan fod data ar flwyddyn oedran unigol eisoes wedi'u cynnig.

Mewn ymateb, byddwn yn ystyried ymarferoldeb rhyddhau peth gwybodaeth fesul blwyddyn oedran unigol ar gyfer y rhai sydd dros 99 oed yng ngham cyntaf yr amserlen datganiadau. Byddwn yn ystyried ymarferoldeb yr anghenion eraill a godir o ran camau diweddarach yr amserlen datganiadau.

## **Gwlad enedigol**

### **Labeli dosbarthiadau gwlad enedigol manwl**

Gwnaethom ofyn am farn ar ein cynnig i symleiddio'r labeli dosbarthiadau gwlad enedigol manwl, drwy ddileu manylion ynghylch pryd yr ymunodd gwlad â'r UE. Dynododd y labeli yng Nghyfrifiad 2011 y grwpiau canlynol:

- EU15: dinasyddion gwledydd a oedd yn aelodau o'r UE cyn 2004, er enghraifft Ffrainc, yr Almaen a Sbaen
- EU8: dinasyddion gwledydd yng Nghanol a Dwyrain Ewrop a ymunodd â'r UE yn 2004, er enghraifft Gwlad Pwyl

- EU2: dinasyddion Bwlgaria a Rwmania a ddaeth yn aelodau o'r UE yn 2007. Rhwng 2007 a 2013, roedd y gwledydd hyn yn destun rheolaethau trosiannol a oedd yn cyfyngu ar eu mynediad i farchnad lafur y DU. Codwyd y cyfyngiadau hyn ar 1 Ionawr 2014

Ers hyn, mae'r DU wedi gadael yr UE ac mae Croatia wedi ymuno. Yn y dosbarthiadau manylach, gan ddefnyddio'r labeli syml a gynigiwyd, gall y data gael eu crynhoi o hyd i gynhyrchu data yn ôl pryd y gwnaeth gwlad ymuno â'r UE. Fodd bynnag, ni fyddai mor hawdd gwneud hyn.

Of the 212 respondents that told us whether the proposal met their needs, 80% stated that it fully met their needs. A further 9% stated that it partially met their needs.

Trafododd ymatebwyr yr angen i ddadansoddi data gan ddefnyddio'r dadansoddiad hwn. Er enghraifft, nododd Migration Yorkshire:

“Mae'r newid y mae llawer o gymdogaethau wedi'i brofi dros yr 20 mlynedd diwethaf wedi cael ei ddylanwadu'n fawr gan y gwledydd sydd wedi'u derbyn yn aelod o'r UE (ers 2004) [..]. Er nad yw'r DU yn rhan o'r UE mwyach, mae'r cymunedau sydd wedi ffurfio yn sgil symudiad rhydd yn dal i fodoli ac maent wedi llywio cymunedau yn y DU yn barhaol - a byddant yn parhau i wneud hynny drwy aduniadau teuluol a mudo cadwyn yn y dyfodol er enghraifft, yn yr ieithoedd a siaredir yn y DU a hunaniaeth plant â rhieni sydd wedi mudo. Byddai'r cyfrifiad yn ein helpu i ddeall sut mae cymunedau wedi newid ers Brexit a phwy (o'r grŵp a dderbyniwyd yn aelod o'r UE) sydd wedi aros ac sy'n bwriadu gwneud y DU yn gartref parhaol. Mae eu hanghenion a'u nodweddion yn parhau i fod yn rhan bwysig o waith cynllunio gwasanaethau a mentrau cydlyniant cymunedol.”

Yn yr un modd, dywedodd Cyngor Dinas Manceinion:

“Mae'r angen i fonitro effaith Brexit yn parhau, yn enwedig am resymau a wynebir ar hyn o bryd o ran prinder gyrrwyr a gweithwyr ieuchyd. Mae hyn yn golygu bod angen gwahanu'r UE a gweddill Ewrop yn allbynnau'r cyfrifiad a gwahaniaethu rhwng cyn ac ar ôl 2004. Mae hyn er mwyn llywio penderfyniadau am strategaethau economaidd, e.e. paru data yn erbyn colli gweithwyr o'r UE mewn diwydiannau penodol, gallu gwahanu a pharu yn erbyn newidiadau i lifau mudo er mwyn asesu a yw Brexit, COVID-19 neu wahanol gyfleoedd/heriau gwaith yn effeithio ar lifau mudo”

O blith yr ymatebwyr a oedd yn cytuno'n llwyr â'n cynnig, awgrymodd rhai nad oedd angen i'r data gael eu rhannu fel hyn. Nododd eraill, petai angen i'r data gael eu rhannu, y gallent wneud y gwaith cydgasglu eu hunain.

Er enghraifft, nododd Hyb Cydraddoldeb Swyddfa'r Cabinet:

“Mae dileu manylion ynghylch pryd y gwnaeth gwlad ymuno â'r UE yn iawn, os bydd gwaith dadansoddi yn y dyfodol yn gofyn am hyn gallwn grwpio'r gwledydd ein hunain yn seiliedig ar pryd y gwnaethant ymuno.”

Yn yr adborth hwn, mae'r ymatebwyr wedi mynegi angen clir am y wybodaeth hon.

Mewn ymateb, byddwn yn cadw'r labelu mewn dosbarthiadau gwlad enedigol manwl sy'n grwpio gwledydd yn ôl pryd y gwnaethant ymuno â'r UE. Caiff y broses labelu hon ei diweddarau i adlewyrchu'r categorïau a ddefnyddir yn yr [Adroddiad Chwarterol ar Ystadegau Mudo](#).

## **Aelodaeth o'r UE mewn dosbarthiadau gwlad enedigol eraill**

Cododd ymatebwyr bryder ar hap na fyddai'n bosibl, yn y dosbarthiadau llai manwl, i wahaniaethu rhwng aelod-wledydd o'r UE a gwledydd Ewropeaidd eraill. Er enghraifft, dywedodd Cyngor Sir Bryste:

"Nid oes angen i ni wybod pryd y gwnaeth gwledydd ymuno â'r UE ond hoffem allu nodi'n glir y gwledydd hynny sydd yn yr UE ar hyn o bryd. Felly, hoffem weld 'Ewrop: Ewrop arall' wedi'i rannu'n 'Ewrop: UE' ac 'Ewrop: ddim yn yr UE' ym mhob dosbarthiad Gwlad enedigol ar bob lefel. [...]

Nid yw effeithiau Brexit ar ein demograffeg poblogaeth yn hysbys ar hyn o bryd. Disgwylir am ganlyniadau Cyfrifiad 2021 yn eiddgar er mwyn i ni allu dadansoddi'r newid ers 2011 a deall sut mae ein poblogaeth wedi newid, yn enwedig y newid yn y boblogaeth a aned yn yr UE."

Mewn ymateb, byddwn yn asesu ymarferoldeb rhannu'r categori "Ewrop: Ewrop Arall: Ewrop Arall" yn ddau grŵp ym mhob lefel o ddsbarthiad gwlad enedigol. Bydd y ddau grŵp hyn yn gwahaniaethu rhwng y gwledydd hynny sy'n aelodau o'r UE a'r rheini nad ydynt mewn rhai o'r dosbarthiadau gwlad enedigol.

Byddwn hefyd yn asesu ymarferoldeb sicrhau bod aelod-wladwriaethau'r UE yn gallu cael eu nodi ar wahân yn y dosbarthiadau pasbortau a ddelir.

## **Dosbarthiadau eraill**

Gallwn ddarparu mwy o fanylion am bynciau eraill o Gyfrifiad 2021 sydd bellach â chategorïau nad oeddent ar gael yng Nghyfrifiad 2011. Mae'r rhain yn cynnwys:

- math o gartref
- gwres canolog
- statws priodasol
- ail gyfeiriad
- anabled
- gofal di-dâl

I ailgadarnhau'r angen am fwy o fanylion am y pynciau hyn, gwnaethom ofyn i ddefnyddwyr a fyddai mwy o fanylion o fudd, ac os felly, yr effaith ar eu gwaith.

Nododd cyfanswm o 201 o ymatebwyr y byddent yn defnyddio'r manylion ychwanegol o un neu fwy o'r newidynnau estynedig.

## **Math o gartref**

Gwnaethom ychwanegu categori newydd “fflat neu maisonette: yn rhan o adeilad arall wedi'i addasu (er enghraifft, hen ysgol, eglwys neu warws)” at holiadur Cyfrifiad 2021.

O blith y 201 o ymatebwyr, nododd 73% y byddent yn defnyddio'r manylion ychwanegol am y math o gartref.

Dyweddodd ymatebwyr wrthym y byddai'r wybodaeth hon yn effeithio ar ddadansoddiadau tai, a ddefnyddir mewn Cynlluniau Lleol, ac Asesiadau o'r Angen am Dai. Yr effaith fyddai gwell dealltwriaeth o'r stoc dai bresennol. Er enghraifft, dywedodd Cyngor Sir Swydd Gaerloyw:

“wrth i ganol y ddinas newid oherwydd COVID byddai hyn yn ddefnyddiol i'n helpu i ddeall ble mae adeiladau eisoes wedi cael eu trawsnewid at ddiben gwahanol a byddai'n rhoi meincnod i ni gan fod hyn yn debygol o ddod yn fwy cyffredin yn y dyfodol”

Gallai hyn gael effaith uniongyrchol ar bolisïau cynllunio. Er enghraifft, dywedodd Cyngor Dinas Birmingham:

“Yna gallem ymateb i hyn drwy ddrafftio polisïau cynllunio a fyddai'n mynd i'r afael yn uniongyrchol â'r materion a nodir gan y data, er enghraifft drwy ehangu'r mathau o gartrefi i'w cyflenwi mewn cynigion datblygu newydd.”

Hefyd nododd ymatebwyr y gallai'r wybodaeth gael ei defnyddio i asesu hygyrchedd stoc dai.

Lle bo'n ymarferol, byddwn yn defnyddio dosbarthiadau newidynnau sy'n cynnwys y data ychwanegol hyn.

## **Gwres canolog**

Gwnaethom sawl newid i'r cwestiwn ar wres canolog yn holiadur Cyfrifiad 2021.

Rhannwyd y categorïau:

- “Nwy” yn “Prif gyflenwad nwy” a “Nwy tanc neu botel”.
- “Tanwydd solet” yn “Coed (er enghraifft, boncyffion, pren gwastraff neu belenni)” a “Tanwydd solet (er enghraifft, glo)”
- “Gwres canolog arall” yn “Ynni adnewyddadwy (er enghraifft, pypiau gwres neu solar thermol)”, “Rhwydweithiau gwres rhanbarthol neu gymunedol” ac “Arall”

O blith y 201 o ymatebwyr, nododd 55% y byddent yn defnyddio'r manylion ychwanegol am wres canolog.

Fel gyda'r wybodaeth am fath o lety, byddai'r wybodaeth hon yn cael ei defnyddio mewn Cynlluniau Lleol, ac Asesiadau o'r Angen am Dai.

Dywedodd ymatebwyr wrthym sut y byddai'r categorïau newydd yn cael eu defnyddio i ddatblygu polisi tai. Hefyd nodwyd sut y byddai'r categorïau newydd yn bwydo i mewn i'r gwaith o ddadansoddi hynt ymrwymadau newid yn yr hinsawdd. Er enghraifft, nododd Cyngor Gorllewin Swydd Gaer a Chaer:

“Byddai gwybodaeth am gartrefi sy'n defnyddio ynni adnewyddadwy yn ein helpu i feithrin dealltwriaeth ac yn helpu i lywio cynlluniau i wneud cartrefi lleol yn fwy ynni-effeithlon a hyrwyddo ynni adnewyddadwy.”

Yn yr un modd, dywedodd Cyngor Bwrdeistref De Tyneside:

"Bydd dangosydd gwres canolog yn rhoi syniad da i ni o faint o gartrefi sydd â gwres ynni adnewyddadwy (o ystyried bod cartrefi yn cyfrif am gyfran uchel o'n hallyriadau carbon) felly bydd yn helpu i lywio polisi newid yn ymwneud â'r hinsawdd.

Hefyd dywedodd ymatebwyr wrthym y byddai'r wybodaeth yn ddefnyddiol mewn gwaith dadansoddi tlodi tanwydd ac y gallai lywio ymgyrchoedd 'Cartrefi clud' yn uniongyrchol.

Lle bo'n ymarferol, byddwn yn defnyddio dosbarthiadau newidynnau sy'n cynnwys y data ychwanegol hyn.

## **Statws priodasol neu statws partneriaeth sifil**

Ychwanegwyd cwestiwn newydd ar ôl y cwestiwn am statws priodasol ar holiadur y cyfrifiad. Gofynnwyd y cwestiwn newydd hwn p'un ai oedd priodas neu bartneriaeth sifil â "Rhywun o'r rhyw arall" neu "Rhywun o'r un rhyw".

O blith y 201 o ymatebwyr, nododd 57% y byddent yn defnyddio'r manylion ychwanegol am statws priodasol.

Gwnaethoch ddweud wrthym y byddai gwybodaeth am statws priodasol yn cael ei defnyddio i fonitro amrywiaeth a'ch helpu i gyflawni rhwymedigaethau Deddf Cydraddoldeb 2010. Er enghraifft, nododd Llywodraeth Cymru:

“Bydd y wybodaeth ychwanegol am statws priodasol/partneriaeth sifil â rhywun o'r rhyw arall/yr un rhyw yn gwella ein dealltwriaeth o boblogaeth Cymru ac yn ategu'r wybodaeth sydd ar gael am gyfeiriadedd rhywiol ac ati.”

Fodd bynnag, ni wnaeth unrhyw ymatebwyr ddarparu tystiolaeth o bolisiâu na gwasanaethau penodol y byddai'r manylion ychwanegol yn helpu i'w llywio.

Mewn ymateb, o ystyried y nifer bach o bobl mewn sawl grŵp, rydym wedi lleihau'r manylder a geir ym mhob dosbarthiad. Yn ein dosbarthiad mwyaf manwl, byddwn yn cynnwys:

- erioed wedi priodi na chofrestru partneriaeth sifil
- priod - rhyw arall
- priod - yr un rhyw
- mewn partneriaeth sifil gofrestredig - rhyw arall
- mewn partneriaeth sifil gofrestredig - yr un rhyw
- wedi gwahanu, ond yn dal i fod yn briod
- wedi gwahanu ond yn dal i fod mewn partneriaeth sifil
- wedi ysgaru
- wedi bod mewn partneriaeth sifil sydd bellach wedi'i diddymu'n gyfreithiol
- person gweddw
- wedi colli partner sifil drwy farwolaeth

Credwn y bydd y dosbarthiad hwn yn diwallu angen defnyddwyr am ddata, gan leihau'r risg o ddatgelu ystadegol ar gyfer y grwpiau llai ar yr un pryd. Defnyddir y dosbarthiad llai hwn gyda newidynnau cysylltiedig deilliedig, megis trefniadau byw.

## **Ail gyfeiriad**

Gwnaethom rannu'r categori "Arall" yn "Cyfeiriad partner" ac "Arall".

O blith y 201 o ymatebwyr, nododd 44% y byddent yn defnyddio'r manylion ychwanegol am ail gyfeiriad.

Dywedodd ymatebwyr wrthym mai mewn asesiadau o anghenion ar gyfer y farchnad dai y caiff y wybodaeth hon ei defnyddio'n bennaf. Gall helpu i nodi sut y defnyddir y stoc dai ac i ddeall y tai sydd ar gael yn yr ardal.

Dim ond un ymatebydd a soniodd am ddefnyddio'r categori newydd. Dywedodd Cyngor Bwrdeistref Basingstoke a Deane:

“yn ddefnyddiol i helpu i ddeall faint o barau sy'n byw ar wahân gyda'i gilydd.”

Mewn ymateb, byddwn yn ystyried a ddylid defnyddio dosbarthiad llai manwl mewn mwy o'n hallbynnau. Bydd yr asesiad hwn yn ystyried yr adborth ar y cynnig i greu newidyn dangosydd "Byw ar wahân gyda'n gilydd".

## **Anabledd**

Yng Nghyfrifiad 2021, gwnaethom aralleirio cwestiynau am gyflyrau neu salwch corfforol neu feddyliol. Gwnaed hyn er mwyn casglu data sy'n agosach at y diffiniad o anabledd

yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Hefyd rhannwyd y cwestiwn yn ddau, gan arwain at wybodaeth ar wahân am y canlynol:

- y rheini heb gyflwr na salwch
- y rheini â chyflwr neu salwch nad oedd yn effeithio ar eu bywydau o ddydd i ddydd

O blith y 201 o ymatebwyr, nododd 76% y byddent yn defnyddio'r manylion ychwanegol am anabledd.

Dyweddodd ymatebwyr wrthym fod y newidiadau i eiriad y cwestiwn, er mwyn gallu diffinio'r boblogaeth a ddiffinnir yn anabl yn well, yn newid pwysig a gwerthfawr. Er enghraifft, bydd hyn yn llywio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd yn helpu i lunio Aseidiadau o Anghenion Strategol ar y Cyd a Chynlluniau Lleol. Bydd hefyd yn cefnogi gwaith dadansoddi yn ymwneud â thargeddu gwasanaethau penodol.

Nododd un ymatebydd, mewn rhinwedd broffesiynol:

“roedd gennym gwestiwn diweddar am y rhai a oedd angen toiledau anabl mewn tref leol - byddai hyn wedi ein helpu i nodi'r angen hwnnw yn well”

Hefyd nododd sawl ymatebydd werth deall y gwahaniaeth rhwng y ddau gategori newydd ar wahân. Mae hyn er mwyn deall y boblogaeth yn llawnach a nodi grwpiau nad oes ganddynt anghenion ychwanegol nawr efallai ond a all fod ganddynt yn y dyfodol. Er enghraifft, nododd Age UK:

“Bydd y manylion ychwanegol am anabledd yn ein galluogi i fesur y boblogaeth sydd â salwch hirdymor, a phennu pa gyfran o'r bobl hynny fyddai'n cael eu diffinio'n anabl, a all fod angen cymorth, ac a allai gael eu deall fel pobl sydd angen gofal cymdeithasol.”

Lle bo'n ymarferol, byddwn yn defnyddio dosbarthiadau newidynnau sy'n cynnwys y data ychwanegol hyn.

## **Gofal di-dâl**

Gwnaethom gynyddu nifer yr opsiynau ymateb ar gyfer oriau o ofal di-dâl a ddarperir. Rhannwyd yr opsiynau:

- “Ydw/ydy, 1 i 19 awr yr wythnos” yn “Ydw/ydy, 9 awr neu lai yr wythnos” ac “Ydw/ydy, 10 i 19 awr yr wythnos”
- “Ydw/ydy, 20 i 49 awr yr wythnos” yn “Ydw/ydy, 20 i 34 awr yr wythnos” ac “Ydw/ydy, 35 i 49 awr yr wythnos”

O blith y 201 o ymatebwyr, nododd 64% y byddent yn defnyddio'r manylion ychwanegol am ofal di-dâl.



Dyweddodd ymatebwyr wrthym y byddai'r data ar ofal di-dâl yn llywio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd yn helpu i lunio Asesiadau o Anghenion Strategol ar y Cyd, Cynlluniau Lleol a Strategaethau Gofalwyr. Cafodd y defnydd o'r categorïau newydd ei ddiffinio'n glir gan Age UK, a ddywedodd:

"Mae'r manylion ychwanegol am nifer yr oriau o ofal di-dâl a ddarperir yn hynod bwysig. Mae tystiolaeth bod pobl yn fwy tebygol o adael y farchnad lafur os byddant yn darparu 10+ awr o ofal di-dâl bob wythnos, a bydd y manylion hyn yn fodd i ateb y cwestiwn hwn gan ddefnyddio data cenedlaethol manwl.

Yn yr un modd, dim ond y rhai sy'n darparu 35+ awr o ofal di-dâl yr wythnos sy'n gymwys i gael Lwfans Gofalwyr, felly bydd rhannu'r categori 20+ awr yn 20-34 a 35-49 yn fodd i feithrin gwell dealltwriaeth o'r defnydd o Lwfans Gofalwyr."

Hefyd nododd ymatebwyr y byddent yn defnyddio'r manylion ychwanegol i ddeall iechyd a llesiant yn well. Er enghraifft, nododd y Sefydliad Iechyd:

"Bydd unrhyw fanylion ychwanegol am nifer y gofalwyr di-dâl yn ein helpu i feithrin gwell dealltwriaeth o'r ffordd mae'n effeithio ar iechyd a llesiant pobl. Byddai mwy o fanylion [...], yn rhoi gwell dealltwriaeth i ni o'r graddau y mae gofal di-dâl yn effeithio ar allu unigolyn i weithio.

Hefyd nododd ymatebwyr y byddai'r manylion ychwanegol yn eu galluogi i gyfrifo amcanestyniadau mwy cywir o gyfanswm nifer yr oriau o ofal di-dâl a ddarperir mewn cymuned. Bydd hyn yn ei dro yn galluogi defnyddwyr i lunio gwell rhagamcanion o'r adnoddau sydd eu hangen i gefnogi'r boblogaeth hon.

Lle bo'n ymarferol, byddwn yn defnyddio dosbarthiadau newidynnau sy'n cynnwys y data ychwanegol hyn.

## **Dosbarthiadau eraill**

Yn yr ymgynghoriad cafwyd ceisiadau pellach am wybodaeth fanylach. Roedd y ceisiadau hyn yn ymwneud yn bennaf â chwestiynau am opsiynau ysgrifennu, megis prif iaith, crefydd, a hunaniaeth genedlaethol. Yn y rhan fwyaf o achosion bodlonir y gofynion hyn drwy'r cynigion presennol o ran dosbarthiadau.

Ar gyfer prif iaith, bu cais i rannu'r categori "Iaith Tsieinëeg arall". Gofynnwyd am hyn er mwyn darparu rhagor o wybodaeth am faint y poblogaethau sy'n siarad pob un o'r 10 iaith a geir yn y categori hwn. Nododd yr ymatebydd y byddai hyn yn helpu i gynllunio gwasanaethau cyfieithu.

Mewn ymateb, byddwn yn ystyried ymarferoldeb rhannu un neu fwy o ieithoedd allan o'r categori "Iaith Tsieinëeg arall".

Hefyd bu cais i greu newidyn yn nodi cartrefi lle mai myfyrwyr yw'r holl breswylwyr arferol. Nododd Llywodraeth Cymru:

“Mae angen deall pa mor gyffredin yw tai amlfeddiannaeth mewn ardaloedd lleol, a nodweddion y rhai sy'n byw ynddynt (oedran, rhyw, ethnigrwydd, statws priodasol). Bydd yn bwysig gallu gwahaniaethu rhwng eiddo 'myfyrwyr i gyd' ac eiddo deiliaid cymysg. Bydd yn helpu i ddeall y graddau y mae pobl nad ydynt yn fyfyrwyr yn dewis y math hwn o dai, er enghraifft, os na allant fforddio prynu eiddo. Bydd y wybodaeth hon yn bwysig i awdurdodau lleol wrth baratoi asesiadau o'r farchnad dai leol ac wrth ystyried opsiynau polisi o ran tai fforddiadwy.”

Mewn ymateb, byddwn yn ystyried ymarferoldeb llunio newidyn ar gyfer cartrefi myfyrwyr.

## Y Camau Nesaf

Unwaith eto, hoffem ddiolch i bawb a roddodd eu barn i ni drwy ymateb i'r ymgynghoriad. Mae'r dystiolaeth a'r sylwadau a roddwyd gan ymatebwyr yn amhrisiadwy wrth ein helpu i nodi a datblygu allbynnau Cyfrifiad 2021 a chynhyrchion dadansoddi sydd eu hangen ar ddefnyddwyr.

Rydym wrthi'n gwerthuso'r 312 o ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad hwn ac yn paratoi ymateb ffurfiol i'r adborth a gafwyd. Os hoffech roi mwy o adborth i ni, anfonwch e-bost at dîm Allbynnau a Lledaenu Cyfrifiad 2021 yn [census.outputs@ons.gov.uk](mailto:census.outputs@ons.gov.uk) neu ewch i'n [tudalennau gwe](#).

## Ail ymateb i'r ymgynghoriad

Yn 2022, cyn cyhoeddi canlyniadau cyntaf Cyfrifiad 2021 ddiwedd y gwanwyn, rydym yn bwriadu cyhoeddi rhan dau o'n hymateb i'r adborth o'r ymgynghoriad.

Yn yr ail ymateb hwn, byddwn yn canolbwyntio ar adborth ymatebwyr ynghylch cynhyrchion Cyfrifiad 2021 a ryddheir yn ystod ail gam a thrydydd cham ein hamserlen datganiadau. Mae'r camau hyn yn ymwneud â rhyddhau'r canlynol o Gyfrifiad 2021:

- data amlamrywedd
- allbynnau ansafonol
- adroddiadau dadansoddol manylach

Byddwn hefyd yn trafod unrhyw ddata unamryweb rydym yn bwriadu eu cynhyrchu o newidynnau deilliedig newydd posibl. Er bod y cynhyrchion hyn yn cynnwys data unamryweb, fe'u ryddheir ar ail gam yr amserlen datganiadau.

Anelwn at fod mor agored a thryloyw â phosibl. Ynghyd â chyhoeddi ein hadroddiad manylach yn ymateb i'r ymgynghoriad yn 2022, rydym hefyd yn bwriadu cyhoeddi'r holl ymatebion a gyflwynwyd i'r ymgynghoriad hwn.

Caiff yr ymatebion eu cymedroli cyn eu cyhoeddi er mwyn nodi a dileu unrhyw gynnwys sarhaus, amhriodol, masnachol sensitif neu farchnad sensitif. Dim ond lle cafwyd caniatâd i wneud hynny y cyhoeddir enwau unigolion neu sefydliadau.

## Llunio fersiwn derfynol ein cynlluniau a'u cyhoeddi

Byddwn yn gweithredu'r argymhellion yn y ddogfen hon cyn rhyddhau canlyniadau cyntaf Cyfrifiad 2021 ddiwedd gwanwyn 2022. Crynhoir yr argymhellion hyn yn yr adran "Crynodeb o'r newidiadau i gynigion cam un

Yna, byddwn yn gweithredu'r argymhellion o'r ail ymateb i'r ymgynghoriad cyn pob cam dilynol o'r amserlen datganiadau.

Ynndo, byddwn yn cynnal asesiad o ymarferoldeb argymhellion rydym wedi ymrwymo i ymchwilio iddynt. Gall yr asesiad hwn arwain at y casgliad na ddylid gwneud y newid yr ymchwilir iddo.

Byddwn yn diweddarau tudalennau gwe [allbynnau Cyfrifiad 2021](#) er mwyn mynd i'r afael â'r bylchau mewn gwybodaeth a nodwyd yn yr ymateb i'r ymgynghoriad.

Unwaith y bydd gennym fersiwn derfynol ein cynlluniau ar gyfer pob cam o'r amserlen datganiadau, byddwn yn cyhoeddi manylion y cynlluniau hynny.

## Cysoni

Byddwn hefyd yn parhau i gydweithio'n agos â'n cydweithwyr yng Nghofnodion Cenedlaethol yr Alban ac Asiantaeth Ystadegau ac Ymchwil Gogledd Iwerddon. Ein nod yw sicrhau bod canlyniadau a chynhyrchion y cyfrifiad mor gyson â phosibl, a bod modd eu cymharu cymaint â phosibl.

## Atodiad A: Sut rydym yn ymateb i'r adrannau gwahanol yn yr ymgynghoriad

Cafodd y ddogfen ymgynghori a'r holiadur eu strwythuro'n wyth adran er mwyn helpu defnyddwyr i ddod o hyd i'r pynciau roeddent am ymgynghori arnynt. Roedd yr adrannau hyn yn cynnwys:

1. Pam rydym yn ymgynghori
2. Ffurf yr amserlen ar gyfer rhyddhau allbynnau a gwaith dadansoddi
3. Prif newidiadau i newidynnau o gymharu â Chyfrifiad 2011
4. Cynigion ar gyfer newidynnau deilliedig newydd posibl
5. Manylebau seiliau poblogaeth
6. Cynnal cyfrifiad yn ystod cyfnod o newid
7. Paradata
8. Unrhyw sylwadau eraill

Cafodd yr holiadur ei rannu ymhellach yn 25 o isadrannau er mwyn helpu ymatebwyr i ddod o hyd i'r pynciau roeddent am ymgynghori arnynt. Yr unig adran orfodol oedd adran 1, a oedd yn gofyn am wybodaeth am bwy oedd yn ymateb. Roedd yr holl gwestiynau yn adrannau eraill yr ymgynghoriad yn ddewisol. Wrth ymateb i'r cwestiynau yn adrannau 2 i 8, gwnaethom ofyn i ddefnyddwyr nodi eu gofynion a'u cyfiawnhau.

Yn yr atodiad hwn, rhestrwn yr isadrannau o'r holiadur rydym yn eu trafod yn yr ymateb hwn i'r ymgynghoriad a'r rhai a drafodir yn rhan dau. Disgwylir cyhoeddi ail ran ein hymateb yn 2022, cyn cyhoeddi canlyniadau cyntaf Cyfrifiad 2021 ddiwedd y gwanwyn.

Lle cyflwynwyd ymatebion yn yr isadran "Unrhyw sylwadau eraill (8a)", rydym wedi eu dyrannu i'w gwerthuso yn yr holl adrannau perthnasol ym mhob adroddiad. Rydym wedi trin unrhyw sylwadau a roddwyd mewn adran benodol, sy'n berthnasol i'w gilydd, yn yr un ffordd.

Ni fyddwn yn rhannu gwybodaeth a gasglwyd yn isadrannau "Eich manylion cyswllt chi neu eich sefydliad (1a)" na "Cyhoeddi ymatebion i'r ymgynghoriad (1c)". Dim ond am resymau gweithredol yn ymwneud â chyhoeddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad y defnyddir y wybodaeth hon.

### Ymateb i'r ymgynghoriad: rhan un

Yn yr adroddiad hwn, rydym yn canolbwyntio ar yr adborth rydym wedi'i gael am gynhyrchion Cyfrifiad 2021 a gyhoeddir ar gam cyntaf ein cynlluniau datganiadau. Gwnaethom ofyn y cwestiynau hyn yn yr isadrannau canlynol o holiadur yr ymgynghoriad.

## **Crynodeb o'r ymatebion**

- Math o ddefnyddiwr data (1b)

## **Ffurf yr amserlen ar gyfer rhyddhau allbynnau a gwaith dadansoddi – cam un: casgliadau**

- Ardal ddaearyddol (2a)
- Crynodebau o bynciau a phroffiliau ardal (2b)
- Data'r DU (2d)

## **Prif newidiadau i newidynnau o gymharu â Chyfrifiad 2011: casgliadau**

- Cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd (3a)
- Cyn-filwyr y lluoedd arfog a'r cwestiwn ateb drwy ddirprwy (3b)
- Dosbarthiadau grwpiau ethnig (3c)
- Oedran, gwlad enedigol a dosbarthiadau eraill (3d)

## **Ymateb i'r ymgynghoriad: rhan dau**

Ddechrau 2022, byddwn yn cyhoeddi rhan dau o'n hymateb i'r ymgynghoriad. Yn yr ail adroddiad hwn, byddwn yn trafod yr adborth a gafwyd am gamau diweddarach amserlen datganiadau allbynnau Cyfrifiad 2021. Mae hyn yn cynnwys cynlluniau ar gyfer cynhyrchu:

- newidynnau newydd
- tablau amlamrywedd
- dadansoddiad manwl
- paradata

Gwnaethom ofyn cwestiynau am y pynciau hyn yn yr isadrannau canlynol o holiadur yr ymgynghoriad.

## **Ffurf yr amserlen ar gyfer rhyddhau allbynnau a gwaith dadansoddi – cam 2: casgliadau**

- Data amlamrywedd (2c)

## **Cynigion ar gyfer gwaith dichonoldeb i ddeillio newidynnau newydd: casgliadau**

- Addysg a chyflogaeth (4a)
- Iechyd a threfniadau byw (4b)
- Math o gartref a chyfeiriadau gwag (4c)

- Anghenion data ychwanegol (4d)

### **Manylebau seiliau poblogaeth: casgliadau**

- Seiliau poblogaeth amgen (5a)
- Poblogaethau bach (5b)

### **Cynnal cyfrifiad yn ystod cyfnod o newid: casgliadau**

- Man preswyllo (6a)
- Gweithgarwch economaidd a chyflogaeth (6b)
- Teithio i'r gwaith a pharthau gweithleoedd (6c)
- Effeithiau ar allbynnau eraill (6d)
- Anghenion data a ddaw i'r amlwg (6e)

### **Paradata: casgliadau**

- Cyfraddau ymateb cartrefi ac unigolion (7a)
- Dull cwblhau a'r iaith ymateb (7b)

## Atodiad B: Ymatebwyr i'r ymgynghoriad

### Ymatebion proffesiynol a sefydliadol

#### Ymatebion proffesiynol fesul sector

Cawsom 312 o ymatebion i'r ymgynghoriad. O'r rhain, roedd 240 gan bobl mewn rhinwedd broffesiynol. Mae Tabl 1 yn dangos y dadansoddiad o'r ymatebion proffesiynol hyn fesul sector.

Mewn nifer bach o achosion, nid oedd yn glir a oedd yr ymatebydd yn ateb yr ymgynghoriad mewn rhinwedd bersonol neu broffesiynol. Yn yr achosion hyn, gwnaethom gysylltu â'r ymatebydd i gadarnhau sut y byddai'n hoffi i'w ymateb gael ei gofnodi. Fel y cyfryw, caiff nifer bach o ymatebion eu cofnodi'n wahanol i'r ffordd y cawsant eu hateb yn yr ymateb i'r ymgynghoriad a gawsom.

**Tabl 1:** Nifer yr ymatebion a gafwyd mewn rhinwedd broffesiynol fesul sector

Sector	Nifer yr ymatebion proffesiynol	Canran yr ymatebion proffesiynol
Llywodraeth ganolog	9	4
Llywodraeth leol	126	53
Corff cyhoeddus arall	11	5
Academaidd neu ymchwil	17	7
Crefydd neu ffydd	8	3
Elusennol a gwirfoddol	46	19
Masnachol	8	3
Arall neu heb nodi sector <sup>1</sup>	15	6
CYFANSWM	240	100

---

<sup>1</sup> Mae arall yn cynnwys ymatebion lle atebodd yr ymatebydd "Arall", "Newyddiadurwr" neu lle na roddwyd ei sector.



## **Rhestr o'r ymatebion sefydliadol fesul sector**

O'r 240 o ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad mewn rhinwedd broffesiynol, cafodd 211 o'r rhain eu cyflwyno ar ran sefydliad a enwyd. Rhestrir y sefydliadau hyn yn yr adran hon.

### **Llywodraeth ganolog**

- Adran Economi Gogledd Iwerddon - Is-adran Addysg Bellach, Tîm Trawsnewid
- Adran Gwaith a Phensiynau
- Adran Gwaith a Phensiynau - dadansoddi tai
- Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Hyb Cydraddoldeb Swyddfa'r Cabinet
- Llywodraeth Cymru
- Swyddfa Gartref - Modelu'r Galw

### **Llywodraeth leol**

- Adran yr Economi - cangen Strategaeth Sgiliau
- Awdurdod Cyfunol Manceinion Fwyaf (GMCA)
- Awdurdod Llundain Fwyaf
- Awdurdod Parc Cenedlaethol New Forest
- Bwrdeistref Barking a Dagenham, Llundain
- Bwrdeistref Barnet, Llundain
- Bwrdeistref Bromley (Cyngor Bromley), Llundain
- Bwrdeistref Camden, Llundain
- Bwrdeistref Frenhinol Kensington a Chelsea
- Bwrdeistref Harrow, Llundain
- Bwrdeistref Havering, Llundain
- Bwrdeistref Hillingdon, Llundain
- Bwrdeistref Redbridge, Llundain - Tîm Gwybodaeth Fusnes
- Bwrdeistref Richmond upon Thames, Llundain
- Bwrdeistref Tower Hamlets, Llundain
- Cymdeithas Ymchwil a Gwybodaeth Ardaloedd Lleol a'r Gymdeithas Llywodraeth Leol (LARIA)
- Cyngorau Dosbarth De Swydd Rydychen a Dyffryn y Ceffyl Gwyn
- Cyngorau Llundain
- Cyngor Abertawe
- Cyngor BCP
- Cyngor Bolton
- Cyngor Brent

- Cyngor Bwrdeistref Basingstoke a Deane
- Cyngor Bwrdeistref Blackburn gyda Darwen
- Cyngor Bwrdeistref Copeland
- Cyngor Bwrdeistref Dartford - Gwasanaethau Cynllunio
- Cyngor Bwrdeistref De Tyneside
- Cyngor Bwrdeistref Dyffryn Test
- Cyngor Bwrdeistref Erewash
- Cyngor Bwrdeistref Metropolitanaidd Knowsley
- Cyngor Bwrdeistref Metropolitanaidd Sefton
- Cyngor Bwrdeistref Metropolitanaidd Solihull
- Cyngor Bwrdeistref Metropolitanaidd Tameside
- Cyngor Bwrdeistref Redcar a Cleveland
- Cyngor Bwrdeistref Rochdale
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
- Cyngor Bwrdeistref Southend-on-Sea
- Cyngor Bwrdeistref Tewkesbury
- Cyngor Bwrdeistref Wandsworth
- Cyngor Bwrdeistref Warrington - Tîm Iechyd y Cyhoedd
- Cyngor Caerdydd
- Cyngor Calderdale
- Cyngor Croydon
- Cyngor Cymuned Ffynnon Taf a Nantgarw
- Cyngor Dinas Birmingham
- Cyngor Dinas Bryste
- Cyngor Dinas Caergrawnt
- Cyngor Dinas Derby
- Cyngor Dinas Derby - Tîm Polisi a Dealltwriaeth
- Cyngor Dinas Hull - Tîm Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd
- Cyngor Dinas Lincoln
- Cyngor Dinas Manceinion
- Cyngor Dinas Newcastle
- Cyngor Dinas Norwich
- Cyngor Dinas Norwich (ail ymateb)
- Cyngor Dinas Nottingham
- Cyngor Dinas Portsmouth
- Cyngor Dinas Rhydychen
- Cyngor Dinas Salford
- Cyngor Dinas Sheffield

- Cyngor Dinas Southampton
- Cyngor Doncaster (DMBC)
- Cyngor Dorset
- Cyngor Dosbarth Bolsover
- Cyngor Dosbarth Braintree
- Cyngor Dosbarth Epping Forest
- Cyngor Dosbarth Folkestone a Hythe
- Cyngor Dosbarth Gogledd-ddwyrain Swydd Derby
- Cyngor Dosbarth Gogledd-orllewin Swydd Gaerlŷr
- Cyngor Dosbarth Stratford-on-Avon
- Cyngor Dosbarth Swydd Huntingdon
- Cyngor Dwyrain Riding Swydd Efrog (ERYC)
- Cyngor Dwyrain Suffolk
- Cyngor Dwyrain Suffolk (ail ymateb)
- Cyngor Dwyrain Swydd Gaer
- Cyngor Enfield
- Cyngor Gateshead
- Cyngor Gogledd Dyfnaint
- Cyngor Gogledd Swydd Lincoln
- Cyngor Gorllewin Swydd Gaer a Chaer
- Cyngor Gorllewin Swydd Northampton
- Cyngor Gwynedd - Ymchwil a Gwybodaeth
- Cyngor Kirklees
- Cyngor Kirklees - Gwasanaeth Ieithoedd Cymunedol
- Cyngor Lewisham
- Cyngor Medway
- Cyngor Middlesbrough
- Cyngor Oldham
- Cyngor Plwyf Hertford Heath
- Cyngor Rochdale
- Cyngor Sir Caint
- Cyngor Sir Durham
- Cyngor Sir Dwyrain Sussex
- Cyngor Sir Essex
- Cyngor Sir Gogledd Swydd Efrog
- Cyngor Sir Gorllewin Sussex
- Cyngor Sir Hampshire
- Cyngor Sir Lancashire

- Cyngor Sir Norfolk (NCC) a Swyddfa Data a Dadansoddeg Norfolk (NODA)
- Cyngor Sir Northumberland
- Cyngor Sir Swydd Derby
- Cyngor Sir Swydd Derby - Adran Lle
- Cyngor Sir Swydd Gaergrawnt
- Cyngor Sir Swydd Gaerloyw
- Cyngor Sir Swydd Gaerwrangon
- Cyngor Sir Swydd Hertford
- Cyngor Sir Swydd Warwick - Gwybodaeth Fusnes
- Cyngor Sir y Fflint
- Cyngor Swydd Amwythig
- Cyngor Swydd Buckingham
- Cyngor Swydd Hertford - Uned Gwybodaeth
- Cyngor Trafford
- Cyngor Tref Yate
- Cyngor Walsall
- Cyngor Ynys Wyth
- Grŵp Publica - yn darparu gwasanaethau ar gyfer Cyngor Dosbarth Gorllewin Swydd Rydychen, Cyngor Dosbarth Cotswold, a Chyngor Dosbarth Forest of Dean
- Migration Yorkshire
- Partneriaeth Menter Leol Gogledd-ddwyrain Lloegr
- Polisi Lluoedd Arfog - 5 awdurdod lleol Gwent

### **Corff cyhoeddus arall**

- Awdurdod Parc Cenedlaethol South Downs
- Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
- Comisiynydd y Gymraeg
- Gofal Cymdeithasol Cymru
- Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin
- Rhaglawiaeth De Swydd Efrog Ei Mawrhydi
- Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru
- Tân ac Achub De Swydd Efrog
- Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru

### **Academaidd neu ymchwil**

- Forward Partnership
- Gwasanaeth Data'r DU

- Prifysgol Caeredin - EDINA
- Prifysgol Queen's Belfast - Daearyddiaeth
- Prifysgol Rhydychen - Arsyllfa Mudo
- Sefydliad Cymunedau Rhyngwladol
- The Diaspora Initiative - Rhwydwaith Ymchwil yn canolbwyntio ar fudo

### **Crefydd neu ffydd**

- Cyngor Mwslimaidd Prydain (MCB)
- Cyngor Rafidasia Prydain
- Eglwys Lloegr - Uned Ymchwil ac Ystadegau
- Hindu Forum Europe a Hindu Matters Britain
- Institute for Jewish Policy Research (JPR)
- Muslim Census
- Newham Muslim Forum
- Sikh Assembly

### **Elusennol a gwirfoddol**

- Age UK
- Alliance of Kashmiri Arts
- British Kashmiri Identity Campaign (BKIC)
- Canolfan Cyngor ar Bopeth Fareham
- Caring Together
- Central Mosque of Brent
- Centre for Cities
- Centre for Homelessness Impact
- CLAUK - clymblaid o sefydliadau America Ladin o'r sector gwirfoddol
- Council of Turkish Cypriot Associations (UK)
- Crisis
- Cronfa Les RAF
- Cymdeithas Frenhinol Pobl Fyddar
- Cymdeithas Preswylwyr Gorllewin Beckenham
- Cymdeithas Tsieineaidd yng Nghymru
- Charity for Civil Servants
- Church of England Soldiers', Sailors' and Airmen's Housing Association Ltd (CESSA HA)
- Difference CIO
- DOR - Romanian Diaspora CIC
- Friends, Families and Travellers

- Gendered Intelligence
- Irish Community Care
- Kashmir Development Foundation
- Kinship
- Lancashire LGBT
- Latin American House
- Letchworth Garden City Heritage Foundation
- LGBT Foundation
- LGBT+ Network for Change
- Nettlestone & Seaview (Men's) Shed
- Pak Pashtoon Association UK
- People Matter IW
- Romanian Women in the UK
- Sense
- Showmen's Mental Health Awareness Charity
- Sight for Wight, Cymdeithas Pobl Fyddar Ynys Wyth
- Stonewall
- Supreme Sikh Council UK
- Tîm British Sikh Report
- The Fatherhood Institute
- The Health Foundation
- The UK Nepal Friendship Society
- Thurrock BME Group

### **Masnachol**

- CACI Ltd. - Isadran Datrysiadau Marchnata
- IMobile connect ltd
- JICPOPS - Pwyllgor Diwydiant Safonau Poblogaeth ar y Cyd
- More Metrics Limited
- Porism Ltd
- Sail4Kashmir

### **Arall neu heb nodi sector**

- Association of Independent Showmen
- Conswl Anrhydeddus Rwmania yng Nghymru
- Cymdeithas Genedlaethol Teithwyr Gychwyr (NBTA)
- Cymdeithas Seciwlwr Genedlaethol
- Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad (CLA Cymru)

- Figura Planning Ltd
- Future4Fairgrounds
- Kashmir Freedom Movement
- Liftshare & Mobilityways
- Migration Advisory Committee
- The Market Research Society (MRS)
- Urdd Dynion Sioe Prydain Fawr

## Crynodeb o ddiddordeb pynciol ymatebwyr

Gwnaethom ofyn i ymatebwyr nodi ar ba bynciau y byddent yn ceisio data neu waith dadansoddi pan fyddant ar gael. O blith y 312 o gyflwyniadau, nododd yr ymatebwyr y byddent yn gwneud hynny mewn perthynas ag amrywiaeth eang o bynciau'r cyfrifiad. Cafodd pob pwnc ei ddewis gan fwy na thraean o'r ymatebwyr. Yn Nhabl 2 dangosir nifer a chanran yr ymatebwyr a fyddai'n ceisio data neu waith dadansoddi ar bob pwnc.

**Tabl 2:** Nifer yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad a fyddai'n ceisio data neu waith dadansoddi ar bob pwnc

<b>Pwnc</b>	<b>Nifer yr ymatebwyr</b>	<b>Canran yr ymatebwyr</b>
Grŵp ethnig, hunaniaeth genedlaethol, iaith a chrefydd	247	79
Demograffeg, gan gynnwys heneiddio	239	77
Iechyd, anabledd a gofal di-dâl	227	73
Tai	218	70
Addysg	211	68
Y farchnad lafur	202	65
Mudo	188	60
Teithio i'r gwaith	169	54
Cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd	168	54
Sefydliadau cymunedol	157	50
Cyn-filwyr y lluoedd arfog	127	41
Dim neu heb ei nodi	23	7